



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwricwlwm Cymru

Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg
Cyfnodau Allweddol 2–4

Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnodau Allweddol 2–4

Cynulleidfa

Athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau yn adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru.

Camau i'w cymryd

Rhaid i athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn ôl y dyddiadau a nodir yn y rhagair.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cwricwlwm

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/dysgu

Dogfennau cysylltiedig

Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg, Cyfnodau Allweddol 2–4 (2016); *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015).

Cynnwys

Rhagair	1
Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2	2
Llafaredd	2
Darllen	5
Ysgrifennu	9
Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol	14
Disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol	14
Targedau cyrhaeddiad	15
Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3	18
Llafaredd	18
Darllen	21
Ysgrifennu	24
Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol	28
Disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol	28
Targedau cyrhaeddiad	29
Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4	32
Llafaredd	32
Darllen	35
Ysgrifennu	39

Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer **Cymraeg** yng Nghymru.

Strwythur y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod allweddol, a dyma nhw yn fras*.

	Oedran y dysgwyr	Grwpiau blwyddyn
Cyfnod Allweddol 2	7–11	3–6
Cyfnod Allweddol 3	11–14	7–9
Cyfnod Allweddol 4	14–16	10–11

Yng Nghymru, mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir.

Cyfnod Allweddol 2	Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol.
Cyfnod Allweddol 3	Fel yng Nghyfnod Allweddol 2, ynghyd ag iaith dramor fodern.
Cyfnod Allweddol 4	Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol.

Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol a restrir uchod, mae rhaglenni astudio yn pennu'r hyn y dylid ei addysgu i'r dysgwyr.

Ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae safonau perfformiad y dysgwyr yn cael eu disgrifio mewn wyth disgrifiad lefel sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Mae disgrifiad ychwanegol y tu hwnt i Lefel 8 er mwyn helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, defnyddir cymwysterau allanol fel y prif ddull o asesu cyrhaeddiad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Mae Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn cynnwys yr holl gymwysterau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymeradwyo, o dan adran 96 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, fel cymwysterau i'w defnyddio gyda dysgwyr o oedran ysgol gorfodol.

Dyddiadau gweithredu

Mae'r rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer **Cymraeg** yn dod yn ofynion cyfreithiol trwy gyfrwng Gorchymyn a wneir gan Lywodraeth Cymru ac yn dod i rym ar 1 Medi 2015.

O'r dyddiad hwn bydd y cwricwlwm cenedlaethol presennol ar gyfer **Cymraeg** yn cael ei ddisodli.

Llywodraeth Cymru Awst 2015

* Mae'r cyfnodau allweddol yn cael eu diffinio'n fanwl gywir yn adran 103 Deddf Addysg 2002.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ymarfer ar lafar cyn ysgrifennu
- ymateb ar lafar i destunau di-dor a phytiog
- gwyllo a chlywed gwahanol bobl yn siarad gan gynnwys pobl â thafodiaith wahanol a siaradwyr profiadol, ac ymateb i'r hyn a glywir ac a welir
- meithrin eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill
- ymateb ar lafar i ystod o symbyliadau ac ysgogiadau a syniadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *paentiadau, darn o gerddoriaeth, ffilm, delweddau llonydd a symudol*
- cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chyd-destunau, e.e. *adrodd yn ôl a chyflwyno gwybodaeth, rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau, dadlau ac esbonio safbwynt, trafod pwnc, perswadio, cwestiynu ac archwilio dehongliadau, cyflwyno profiadau*
- siarad a gwrando'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddsbarth
- defnyddio amrywiaeth o dulliau i gyflwyno syniadau gan gynnwys TGCh, dulliau drama, cynnal trafodaeth a dadl
- cyflwyno, siarad a pherfformio gerbron amrywiaeth o gynulleidfaedd gan gynnwys dysgwyr iau a hŷn, athrawon, cyfoedion, oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol
- ymdrin â gweithgareddau lle y mae geiriau, eu tarddiad, eu hystyr, y rheswm dros eu dewis, a'u heffaith, yn ganolog
- gwyllo a gwrando'n astud gan ymateb i amrywiaeth o symbyliadau ac ysgogiadau, e.e. *testunau ysgrifenedig a deinamig, perfformiadau theatrig a barddonol, siaradwyr gwadd, esboniadau, cyfarwyddiadau*
- cyfathrebu'n glir gan ynganu a goslefu'n briodol yn y Gymraeg, e.e. *llefaru, adrodd stori*
- defnyddio terminoleg sy'n addas i'r sefyllfa neu'r diben
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i drafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *gwaith awduron a chyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol	esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol, e.e. <i>deunyddiau ar sgrin ac ar y we</i>	esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, e.e. <i>defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol</i>	mynegi barn a syniadau'n eglur gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau
		trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, e.e. <i>pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn</i>	trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, e.e. <i>rhoi gwybodaeth gefndir, rhoi crynodeb byr o'r prif bwyntiau</i>	siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, e.e. <i>digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr</i>	siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr
		siarad yn eglur gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr	addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, e.e. <i>defnyddio ti/chi</i>		
		defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. <i>yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio ti/chi)</i>			
		cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl	archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl	archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl	archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae
		dechrau defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖	datblygu eu gallu i ddefnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖	deall pryd mae angen defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol ❖	defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖
		datblygu eu gallu i ddefnyddio ystod o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖	defnyddio a dangos rhywfaint o afael ar batrymau cystrawennol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖	datblygu eu gallu i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖	defnyddio a dangos gafael ar ystod eang o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa yn gywir (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖
		dechrau meithrin cywirdeb wrth siarad, e.e. dechrau defnyddio ffurfiau safonol berfau sy'n berthnasol i'r cyd-destun a'u rhedeg, rhedeg rhai arddodiaid a defnyddio cenedl enwau sydd o fewn cylch eu profiad ❖	meithrin cywirdeb wrth siarad, e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg (ffurfiau presennol, gorffennol a negyddol), rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau ❖	datblygu eu gallu i feithrin cywirdeb wrth siarad, e.e. defnyddio ffurfiau safonol amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio cenedl enwau a rhedeg arddodiaid ❖	meithrin cywirdeb ar lafar, e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio'r amodol a negyddu brawddegau'n gywir, rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau ❖



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, e.e. <i>ar ben</i>	defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>fy nghalon</i>	treiglo'n gywir fel rheol ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. <i>am funud, dy fam</i>	treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, e.e. <i>y llinell</i>
	Gwranddo	gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod	gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau	gwrando'n astud ar gyflwyniadau gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau, e.e. <i>gwneud nodiadau, crynhoi</i>	gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o gasgliadau neu farn y siaradwyr
		gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol	ar ôl gwranddo, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud	gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr	ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a champau nesaf
	Cydweithio a thrafod	cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth	cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan	cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, e.e. <i>cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi</i>	cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
		mynegi barn syml am bynciau a thestunau ysgrifenedig, e.e. trafod pynciau sydd o fewn cylch eu profiad neu drafod cymeriad mewn stori ❖	mynegi barn am bynciau a thestunau ysgrifenedig, e.e. trafod pwnc sy'n effeithio ar eu hysgol neu drafod beth yw eu barn am ddiwedd glo stori ❖	mynegi barn am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gynnig ambell reswm i gefnogi barn ❖	mynegi barn yn glir am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gynnig rhesymau i gefnogi barn ❖
		siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.	helpu grŵp i ddod i gytundeb, e.e. <i>ystyried rhesymau neu ganlyniadau, cadw ffocws ar y pwnc/peidio â dilyn ysgyfarnogod wrth drafod pwnc.</i>	ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp, e.e. <i>drwy holi cwestiynau i archwilio ymhellach, cynnig syniadau ychwanegol.</i>	codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddarllen ystod eang o destunau di-dor a phytiog, mewn fformat print neu mewn ffurf ddeinamig, fel sail i'w hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai'r rhain gynnwys:
 - testunau cyflawn a detholiadau
 - testunau gwybodaeth a chyfeiriol
 - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
 - nofelau graffig a llyfrau llun
 - drama, gan gynnwys perfformiadau drama
 - testunau sy'n ymwneud â phynciau heriol sy'n ehangu'r gorwelion, sy'n datblygu'r gallu i ymresymu
 - testunau sy'n ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol dysgwyr
 - testunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau, ffurfiau, pwrpasau, sy'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd a dyfeisiau cyflwyno gwahanol
 - testunau sy'n gyfoethog o ran safon ac amrywiaeth ieithyddol
 - testunau sy'n adlewyrchu dewis darllen personol dysgwyr
 - testunau ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
 - testunau sy'n amrywio o ran tôn, e.e. *testunau sy'n llawn hiwmor*, *testunau sy'n cynnwys parodi*, *testunau sy'n chwarae ar eiriau*
 - testunau sy'n cynnig her
 - testunau sy'n dangos effaith technoleg ar yr iaith
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, e.e. *darllen mewn paru*, *darllen mewn grŵp dan arweiniad*, *darllen ar y cyd*
- darllen at ddibenion gwahanol, e.e. *er mwynhad personol*, *i adalw gwybodaeth*, *i grynhoi a chyfosod gwybodaeth allweddol*, *i ddehongli a chyfuno gwybodaeth*, *i ddilysu gwybodaeth*, *i gyfoethogi dealltwriaeth drwy ail-ddarllen*, *i adnabod dyfeisiau iaith a ddefnyddir gan yr awdur*, *i ddadansoddi pwrpas ac i dreiddio dan groen testun am ystyr*
- datblygu'r iaith a'r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron*, *beirdd*, *eu cyfoedion*, mewn testunau ysgrifenedig a deinamig.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun	defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun	defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun	defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth ffonig, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun
		darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol gan ganolbwyntio	darllen testunau, gan gynnwys testunau heb fawr o gliwiau gweledol, yn annibynnol, gan ganolbwyntio	darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson	darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau cyson
		gyda chymorth, dechrau adnabod a deall rhai nodweddion sylfaenol mewn testunau di-dor a phytiog o ran iaith, strwythur a chyflwyniad, e.e. strwythur stori, cynllun llythyr ❖	gyda chymorth, deall ac adnabod nodweddion testunau di-dor a phytiog o ran iaith, strwythur a chyflwyniad, e.e. cyflwyniad sgript, cyflwyniad erthygl papur newydd ❖	deall ac adnabod nodweddion mewn ystod gynyddol o destunau (di-dor a phytiog) o ran iaith, strwythur a chyflwyniad, e.e. iaith dyddiadur personol, yr iaith a ddefnyddir mewn araith ❖	yn hyderus, deall ac adnabod nodweddion ystod o destunau gwahanol (di-dor a phytiog) o ran iaith, strwythur, thema a chyflwyniad ❖
		darllen ar goedd gan ddefnyddio atalnodi i helpu'r mynegiant	defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall ystyr	adnabod sut mae atalnodi'n perthyn i gystrawen brawddeg a sut mae ystyr yn cael ei lunio mewn brawddegau cymhleth	deall sut gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg, e.e. <i>Ces i gacen(,) siocled a chaws i de</i>
		cip ddarllen (sgimio) i gael trosolwg ar destun, e.e. <i>pwnc, diben</i>	cip ddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn pennod	defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen (sgimio), e.e. <i>dod o hyd i'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol, y byrdwn, y prif syniadau, themâu</i>	defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth, e.e. <i>cip ddarllen (sgimio) am gynnwys bras, llithr ddarllen (sganio) am fanylion</i>
		chwilio am wybodaeth benodol mewn testunau gan ddefnyddio cynnwys, mynegeion, geirfâu, geiriaduron	llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodweddion mewn testunau, e.e. <i>teitlau, darluniau, geiriau allweddol</i>		
		adnabod dibenion gwahanol testunau, e.e. <i>rhoi gwybodaeth, cyfarwyddo, esbonio</i>			



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	adnabod sut mae testunau'n cael eu trefnu, e.e. <i>rhestri, pwyntiau â rhifau, diagramau â saethau, tablau a phwyntiau bwled</i>	adnabod sut mae testunau'n gwahaniaethu yn ôl eu diben, eu strwythur a'u cynllun	llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol, e.e. <i>is-benawdau, diagramau</i>	darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol
		defnyddio cliwiau gweledol, e.e. <i>darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau</i> , er mwyn gwella dealltwriaeth	dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe, gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o chwilio ac asesu pa ffyrdd yw'r rhai mwyaf effeithlon	adnabod nodweddion testunau, e.e. <i>cyflwyniad i bwnc, dilyniant, darluniau, i ba raddau y mae'n ffurfiol</i>	chwilio ar y rhyngwyd yn ofalus gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu
		dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin, e.e. <i>barrau offer, barrau ochr, penawdau, saethau</i>		defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt ar sgrin ac ar bapur, gan ddethol a lawrlwytho yn ôl yr angen	
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun, e.e. <i>drwy uwcholeuo, gan ddefnyddio geiriau allweddol y testun</i>	nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau	dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau, e.e. <i>map meddwl gan osod syniadau yn nhrefn pwysigrwydd, siart lif sy'n nodi proses</i>	dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un pwnc
		dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant, e.e. <i>achos ac effaith</i>	dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth, e.e. <i>dilyniant, pwysigrwydd</i>	dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant, e.e. <i>beth sy'n digwydd nesaf?, pam gwnaeth hilef hynny?</i>	dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, e.e. <i>safbwyntiau neu agweddau'r awdur</i>
		cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol	archwilio gwybodaeth a syniadau'r tu hwnt i'w profiad personol	adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt	adnabod syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt i ddatblygu dealltwriaeth bellach
		dechrau gwneud cysylltiadau rhwng testunau di-dor a/neu bytiog ❖	dechrau adnabod a gweld tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng testunau di-dor a/neu bytiog ❖	yn annibynnol, gallu adnabod a gweld tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng testunau di-dor a/neu bytiog ❖	adnabod a dechrau esbonio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng testunau di-dor a/neu bytiog o ran iaith, ffurf, strwythur, technegau a dyfeisiau, cymeriadau ❖



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu	dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau	cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol	cydgasglu a gwneud cysylltiadau, e.e. <i>blaenoriaethu, categorieiddio</i> , rhwng gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol
				dehongli'r hyn y mae awdur yn ei feddwl am y pwnc, e.e. <i>edmygu person hanesyddol, diddordeb yn unig mewn ffeithiau</i>	gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn
					ystyried safbwyntiau awduron gwahanol ar yr un pwnc, e.e. <i>mae llygod mawr yn ddiddorol neu'n broblem</i>
		datblygu eu gallu i ddarllen testunau di-dor a phytiog yn rhugl ac yn gywir gan fwynhau ymateb iddynt ar lafar ac yn ysgrifenedig ❖	datblygu eu gallu i ddarllen ystod o destunau di-dor a phytiog yn rhugl ac yn gywir gan fwynhau ymateb iddynt ar lafar ac yn ysgrifenedig ❖	darllen ystod gynyddol o destunau di-dor a phytiog yn rhugl, yn gywir a chyda dealltwriaeth a mwynhad gan ymateb iddynt ar lafar ac yn ysgrifenedig ❖	darllen ystod o destunau di-dor a phytiog yn hyderus, yn rhugl, yn gywir a chyda dealltwriaeth a mwynhad gan ymateb iddynt ar lafar ac yn ysgrifenedig ❖
		gydag anogaeth, ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith a'r cyflwyniad ❖	ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, y naws a threfn/cyflwyniad y testun ❖	ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, yr arddull, y naws a threfn/cyflwyniad y testun gan ddechrau dewis tystiolaeth i gefnogi safbwynt ❖	ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, yr arddull, y naws, y drefn a chyflwyniad y testun gan ddewis tystiolaeth i gefnogi safbwynt ❖
		deall bod testunau'n newid pan fyddant yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd, e.e. <i>testun ysgrifenedig a fersiwn ffilm/cartŵn</i> ❖	adnabod sut mae testunau'n newid pan fyddant yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd ❖	dechrau nodi sut mae testunau'n newid pan fyddant yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd ❖	nodi sut mae testunau'n newid pan fyddant yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd ❖
gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddarllen a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod a'i gredu am y pwnc.	deall sut y gall rhywbeth gael ei gynrychioli ar ffurfiau gwahanol, e.e. <i>delwedd symudol, aml-foddol a phrint</i> .	pwysu a mesur a yw'r cynnwys yn ddibynadwy, e.e. <i>ydy ffotograffau'n fwy dibynadwy na lluniadau?</i>	ystyried a yw testun yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth a syniadau.		



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion gan gynnwys:
 - adrodd yn ôl
 - rhoi cyfarwyddiadau
 - cyflwyno gwybodaeth
 - esbonio
 - dadlau/perswadio
 - trafod/dadansoddi
 - gwerthuso
 - adrodd stori
 - disgrifio
 - dangos empathi
- ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth ac ystod o destunau di-dor a phytlog mewn amryw o ffurfiau, e.e. *llythyron, dyddiaduron, erthyglau, storiâu, adroddiadau, areithiau, dramâu a sgriptiau, taflenni gwybodaeth, hysbysebion, poster, tudalennau a thestun i'r we, holiaduron, adolygiadau, ymsonau*
- ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygol, e.e. *cyfoedion, dysgwyr iau, athrawon, aelodau teulu, cymeriadau hanesyddol a ffuglennol*
- ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, e.e. *odlau a ffurf*
- defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *storiâu, llyfrau lluniau, delweddau, cerddi, profiadau, ffilmiau, paentiadau, cerddoriaeth*
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, cyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon canlynol.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb	addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darlennydd, gan ddewis geiriau'n addas, e.e. <i>iaith ddisgrifiadol ac iaith berswadiol</i>	ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darlennydd, e.e. <i>drwy ddefnyddio geirfa addas a dyfeisiau cyflwyno</i>	addasu arddull ysgrifennu i'r darlennydd a'r diben, e.e. <i>arddull ffurfiol ar gyfer darlennydd anhysbys, arddull syml ar gyfer darllenwyr iau</i>
		defnyddio nodweddion testunau di-dor a phytiog syml yn eu hysgrifennu gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	defnyddio nodweddion ystod gynyddol o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	defnyddio nodweddion ystod o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddechrau addasu eu harddull i weddu i'r darlennydd a defnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	defnyddio nodweddion ystod o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddangos creadigrwydd a'r gallu i addasu eu harddull i weddu i'r darlennydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖
		cynnwys manylion, gwybodaeth neu sylwadau perthnasol yn eu gwaith ysgrifennu	esbonio'r prif syniad(au) gyda manylion ategol gan gynnwys sylwadau ac esboniadau lle bo'n berthnasol	ymhelaethu ar y prif syniad(au) drwy roi rhesymau, gwybodaeth ac enghreifftiau ategol	ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr o bwnc neu thema
		nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu	casglu syniadau i gynllunio ysgrifennu	defnyddio technegau wrth gynllunio gwaith ysgrifennu ar gyfer ei wella, e.e. <i>map meddwl, dilyniannu, gweithgareddau mat bwrdd</i>	defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynllunio ysgrifennu, e.e. <i>nodiaid, diagramau, siartiau llif</i>
		defnyddio nodweddion ar sgrin, e.e. <i>ffont, lliw, torri, gludo, newid maint</i> , i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb y darlennydd ac yn gwella'r ystyr	archwilio a gwneud defnydd addas o wahanol fathau o ysgrifennu ar sgrin i ryngweithio ag eraill, e.e. <i>gwefannau, negeseuon e-bost, blogiau</i>	archwilio cynllun tudalennau'r we i greu deunyddiau gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael	archwilio gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwaith yn briodol, e.e. <i>delwedd symudol, sleidiau, trosleisio</i>
		prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill gan fynegi barn amdano; adnabod ffyrdd i'w wella a dechrau ei olygu ❖	prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, ei asesu ac adnabod ffyrdd i'w wella cyn ei olygu ❖	prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, ei asesu ac argymhell newidiadau priodol ar gyfer gwelliannau; golygu/aiddrafftio'r gwaith i ddangos cynnydd ❖	prawf ddarllen eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, ei werthuso a gwneud argymhellion pendant ar gyfer ei wella; golygu/aiddrafftio'r gwaith i ddangos cynnydd ❖
		adolygu a gwella darnau o'u gwaith	gwella'u gwaith ysgrifennu, ei wirio o ran eglurder a threfn	diwygio a gwella'u gwaith ysgrifennu, gan esbonio pam maent wedi gwneud newidiadau	ystyried, golygu ac aiddrafftio i wella'u gwaith ysgrifennu



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Strwythur a threfn	defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu	defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu, e.e. <i>tablau, holiaduron</i>	defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu, e.e. <i>is-benawdau, penawdau</i>	addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol, e.e. <i>adrodd am ddigwyddiad, ymchwiliad neu arbrawf</i>
		ysgrifennu gan ddefnyddio cyflwyniad i'r pwnc a diweddglo	ysgrifennu cyflwyniad, datblygu cyfres o syniadau a diweddglo	ysgrifennu cyflwyniad sy'n gosod cyd-destun, cyfres o bwyntiau mewn trefn briodol a diweddglo addas	ysgrifennu cyflwyniad effeithiol sy'n gosod cyd-destun a diben, cydbwysedd addas rhwng ffeithiau a safbwyntiau, diweddglo cryno
		cyflwyno prosesau, digwyddiad neu adroddiadau mewn dilyniant clir	trefnu'r gwaith ysgrifennu mewn dilyniant neu adrannau rhesymegol, drwy ddechrau defnyddio paragraffau	defnyddio paragraffau sydd â phrif syniad a manylion perthnasol	defnyddio paragraffau gan wneud cysylltiadau rhyngddynt
		defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n berthnasol, e.e. <i>diagramau wedi'u labelu</i>	defnyddio gwybodaeth weledol, e.e. <i>darluniau, diagramau a graffiau</i> , sy'n glir ac yn berthnasol i'r testun ysgrifenedig	defnyddio delweddau, graffiau a darluniau sy'n glir, yn berthnasol ac yn briodol	defnyddio nodweddion a diwyg sydd wedi'u llunio er mwyn cyflwyno data a syniadau'n glir
Ysgrifennu'n gywir	Iaith	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol	defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol
		defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu â chyd-destun y pwnc	defnyddio geirfa bwnc benodol yn annibynnol	defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol	defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol
		defnyddio ystod gynyddol o eirfa ddychmygus ❖	dewis a defnyddio geiriau dychmygus o ystod gynyddol o eirfa ❖	dewis a defnyddio ystod eang o eirfa ddychmygus a mentrus gyda chywirdeb cynyddol ❖	dewis a defnyddio ystod eang o eirfa ddychmygus a mentrus yn gywir ❖



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ysgrifennu'n gywir	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	defnyddio patrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg a dechrau meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>rhedeg rhai berfau ac arddodiaid, dechrau gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau sydd o fewn cylch eu profiad</i> ❖	dangos rhywfaint o afael ar batrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg a dechrau meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>rhedeg rhai berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau</i> ❖	dangos gafael lled dda ar batrwm a chystrawennau naturiol y Gymraeg gan ddechrau saernio'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau</i> ❖	dangos gafael ar gystrawen naturiol y Gymraeg gan ddechrau saernio'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>defnyddio amrywiaeth gynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol cywir, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau</i> ❖
		cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd	amrywio trefn geiriau, ymadroddion a chymalau mewn brawddegau	defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol gan gynnwys brawddegau cymhleth sy'n dangos perthynas amser neu achos, e.e. <i>cyn cychwyn ... , o wneud hyn, yna</i>	defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith
		defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml	defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir	defnyddio'r amodol i gyfleu damcaniaeth neu bosibilrwydd, e.e. <i>pe bai, gallai</i>	
		defnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau sy'n cyfleu achos a chanlyniad, e.e. <i>oherwydd, ar ôl</i>	defnyddio cysyllteiriau i ddangos cysylltiadau o fewn brawddegau		
		defnyddio ffurfiau safonol berfau'n berthnasol i gyd-destun	defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i>	defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i>	defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i>
		defnyddio ffurfiau gorffennol y ferf yn gyson, e.e. <i>cytsain yn dyblu</i> (e.e. <i>gofyn – gofynnodd</i>)			
		defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin fel arfer yn gywir, e.e. <i>ar ben</i>	defnyddio treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>fy nghalon</i>	treiglo'n gywir yn arbennig ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. <i>am funud, dy fam</i>	treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, e.e. <i>y llinell</i>



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ysgrifennu'n gywir	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	defnyddio atalnod llawn, gofynnod, ebychnod ac atalnod ar gyfer rhestri	defnyddio atalnodi i ddynodi brawddegau, a dechrau defnyddio dyfynodau, atalnod i farcio cymalau, ac ymadroddion a cholllnodau i hepgor llythrennau, e.e. <i>hoffi'r ysgol (i + yr)</i>	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn tywys y darlennydd mewn brawddegau cymhleth, e.e. <i>atalnod, pwyntiau bwled, dyfynodau a cholllnod i ddynodi perchnogaeth (e.e. llyfrau'r bechgyn)</i>	defnyddio'r ystod gyfan o atalnodi'n gywir i wneud i'r ystyr fod yn glir
		defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd geiriau, gwreiddiau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu geiriau, e.e. <i>y geiriau amsillafog mwyaf cyffredin</i>	defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd geiriau, gwreiddiau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu geiriau, e.e. <i>geiriau â phatrymau mwy cymhleth</i>	defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sillafu geiriau a phatrymau cymhleth rheolaidd, e.e. <i>penderfynu, cystadleuaeth</i>	defnyddio strategaethau i sillafu geiriau amsillafog, cymhleth ac afreolaidd yn gywir
		sillafu ffurfiau lluosog yn gywir mewn cyd-destun, e.e. <i>-au, -ion</i>	sillafu mwy o eiriau lluosog yn gywir mewn cyd-destun, e.e. <i>-iau, -i</i>	sillafu mwy o eiriau lluosog, e.e. <i>-oedd, -od, -ydd</i> , a geiriau sy'n dyblu cytseiniaid, e.e. <i>cynnwys</i> , yn gywir mewn cyd-destun	sillafu geiriau lluosog afreolaidd yn gywir, e.e. <i>car – ceir, plentyn – plant</i> , a geiriau sy'n dyblu cytseiniaid, e.e. <i>pennod</i> , yn gywir mewn cyd-destun
		sillafu pob gair aml ei ddefnydd yn gywir			
		cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy a chyflwyno'u gwaith mewn modd priodol gan gyfuno llythrennau mewn ambell air.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n glir ac yn ddarllenadwy ac a all fod yn glwm.	cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy, glwm sy'n llifo'n naturiol.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai dysgwyr sy'n gweithio ar ddeiliant penodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ynghylch deiliant cyrhaeddiad dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y dysgwr. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

Llafaredd

- Deiliant 1** Bydd y dysgwyr yn deall ac yn defnyddio gwrthrychau cyfeirio, symbolau, arwyddion neu eiriau unigol ar gyfer gwrthrychau, digwyddiadau a theimladau cyfarwydd. Byddant yn ymateb i geisiadau syml sy'n cynnwys un neu ddau symbol, arwydd neu air allweddol mewn cyd-destunau cyfarwydd.
- Deiliant 2** Bydd y dysgwyr yn cyfuno dau neu dri symbol, arwydd neu air allweddol i gyfleu ystyr i ystod o bobl gyfarwydd. Byddant yn ymateb i gwestiynau syml ('beth?', 'ble?') ac yn dilyn cyfarwyddiadau sy'n cynnwys dau neu dri symbol, arwydd neu air allweddol.
- Deiliant 3** Bydd y dysgwyr yn defnyddio hyd at bedwar symbol, arwydd neu air allweddol i drefnu'u meddyliau a chyfleu gwybodaeth neu storïau i bobl eraill – gan gynnwys rhai pobl sy'n llai cyfarwydd iddynt. Byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau ('pwy?', 'pam?') ac yn dilyn cyfarwyddiadau sy'n cynnwys tri neu bedwar symbol, arwydd neu air allweddol. Byddant yn cymryd rhan mewn trafodaethau un i un, trafodaethau mewn grwpiau bach a gweithgareddau chwarae rôl, a byddant yn gwrandao ar storïau am gyfnodau cynyddol o amser.

Darllen

- Deiliant 1** Bydd y dysgwyr yn gwrandao ar storïau a rhigymau cyfarwydd ac yn ymateb iddynt. Byddant yn dangos peth dealltwriaeth o'r modd y mae llyfrau'n gweithio (e.e. troi tudalennau). Byddant yn cysylltu gwrthrychau â lluniau a symbolau.
- Deiliant 2** Bydd y dysgwyr yn adnabod rhai symbolau neu eiriau sy'n gysylltiedig â'u diddordebau personol a byddant yn dechrau gwahaniaethu rhwng y rheiny a lluniau. Byddant yn cysylltu llythrennau a geiriau byr â'i gilydd.
- Deiliant 3** Bydd y dysgwyr yn dilyn olyniaeth o'r chwith i'r dde, yn ymuno mewn rhigymau ac yn llenwi bylchau mewn testun naratif cyfarwydd neu ailadroddus. Byddant yn adnabod rhai o lythrennau'r wyddor (wrth eu siâp, eu henw neu'u sain) a nifer cynyddol o eiriau a symbolau cyffredin. Byddant yn deall confensiwn darllen ac yn gwybod bod i brint ystyr. Byddant yn dechrau gwahaniaethu rhwng seiniau arbennig, ac efallai y byddant yn cysylltu'r seiniau hyn â phatrymau llythrennau.

Ysgrifennu

- Deiliant 1** Bydd y dysgwyr yn dechrau deall bod marciau a symbolau yn cyfleu ystyr. Byddant yn cynhyrchu marciau neu symbolau yn y dull o gyfathrebu sydd orau ganddynt.
- Deiliant 2** Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu peth print neu rai symbolau ystyrion sy'n gysylltiedig â'u diddordebau. Byddant yn dargopio llinellau a siapiau, yn ysgrifennu uwch eu pennau ac yna'n copïo llinellau a siapiau, gan ddechrau cynhyrchu llythrennau neu symbolau sy'n hawdd eu hadnabod ac sy'n aml yn gysylltiedig â'u henw nhw eu hunain.
- Deiliant 3** Bydd y dysgwyr yn rhoi llythrennau at ei gilydd mewn grwpiau ac yn gadael bylchau rhyngddynt, fel pe baent yn ysgrifennu geiriau. Byddant yn dechrau defnyddio lluniau, symbolau a geiriau cyfarwydd mewn trefn i gyfleu ystyr, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol ddibenion ysgrifennu. Byddant yn ysgrifennu ychydig eiriau cyfarwydd gan ddefnyddio priflythrennau a llythrennau bach yn briodol fel rheol.

Disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r dysgwyr sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y dysgwr. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, mae'n debygol y bydd perfformiad y mwyafrif mawr o'r dysgwyr yn dod o fewn ystod Lefelau 3 i 6, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 4 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddysgwyr galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.



Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd

Lefel 1	Bydd y dysgwyr yn siarad am faterion cyfarwydd fel unigolion ac mewn grwpiau. Byddant yn siarad yn ddealladwy ac yn ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml. O gael cefnogaeth, byddant yn cyfleu gwybodaeth syml, yn ymateb i symbyliadau ac yn cynnwys rhai manylion.
Lefel 2	Bydd y dysgwyr yn dechrau dangos hyder, yn arbennig wrth sgwrsio am faterion sydd o fewn eu profiad a'u diddordeb. Ar adegau, byddant yn ymateb yn briodol ac yn cynnwys manylion addas. Byddant yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, ac yn ymateb i ystod ehangach o symbyliadau. Byddant yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy wrth ddatblygu ac esbonio eu syniadau, a byddant yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer.
Lefel 3	Bydd y dysgwyr yn sgwrsio gyda pheth hyder mewn gwahanol gyd-destunau am brofiadau a digwyddiadau gan ddangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant. Byddant yn gwrando'n ofalus ar eraill, yn ymateb yn berthnasol iddynt ac yn dechrau gofyn cwestiynau priodol. Byddant yn dechrau addasu eu siarad yn ôl gofynion y gynulleidfa. Byddant yn mynegi barn yn syml ac yn siarad gyda pheth cywirdeb gan ynganu a goslefu'n briodol ac amrywio geirfa a chywair. Byddant yn cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur gan amrywio brawddegau'n bwrpasol. Byddant yn dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn yr iaith a glywant o'u cwmpas.
Lefel 4	Bydd y dysgwyr yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth, yn sôn am brofiadau, yn ymateb yn fanwl ac yn dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant. Byddant yn mynegi barn yn glir gan gynnwys rhesymau ar adegau. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o ofynion cynulleidfa drwy ddechrau amrywio llais, goslef ac ystum. Mewn trafodaeth, byddant yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol i gyfraniadau eraill. Byddant yn siarad yn rhwydd ac yn ddealladwy, gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol gyda mesur da o gywirdeb.
Lefel 5	Bydd y dysgwyr yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Byddant yn rhoi sylw manwl i gyfraniadau eraill, drwy holi er mwyn derbyn syniadau a chyfrannu mewn modd sy'n ystyried safbwynt eraill. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ddilyniant drwy ddatblygu eu sgwrs yn bwrpasol. Byddant yn cadw diddordeb gwrandawyr drwy amrywio'u sgwrs at y diben gan ddefnyddio llais, goslef ac ystum yn ôl gofynion y cyd-destun. Wrth fynegi barn, byddant yn rhoi rhesymau'n gyson i gefnogi'r farn honno. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol, ac yn dangos gafael weddol dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.
Lefel 6	Bydd y dysgwyr yn addasu eu sgwrs yn ôl gofynion amrywiaeth eang o gyd-destunau, ac yn cyflwyno gwybodaeth a phrofiadau yn fwyfwy hyderus. Byddant yn ennyn diddordeb eraill drwy amrywio eu mynegiant a'u geirfa. Mewn trafodaeth byddant yn meddwl yn ofalus am yr hyn a ddywed eraill, gan ystyried sut a phryd i ymateb. Byddant yn mynegi barn gan ddefnyddio tystiolaeth ar brydiau. Byddant yn dangos gafael eithaf sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar ac yn amrywio geirfa a mynegiant yn ôl y cywair.
Lefel 7	Bydd y dysgwyr yn addasu eu sgwrs yn bwrpasol ac yn defnyddio iaith briodol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cyfathrebu'n eglur a threfnus gan ddangos peth blaengaredd. Byddant yn mynegi barn gan ddethol tystiolaeth i gefnogi eu safbwynt. Mewn trafodaeth, byddant yn gwneud cyfraniadau sensitif a meddylgar wrth werthuso syniadau eraill. Byddant yn dangos gafael gadarn ar gystrawen yr iaith lafar ac yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau iaith.
Lefel 8	Bydd y dysgwyr yn cyfrannu ac yn dangos blaengaredd mewn trafodaeth ar wahanol bynciau gydag ystod o wrandawyr. Byddant yn ymdrin â gwybodaeth o amrywiol ffynonellau ac yn defnyddio tystiolaeth yn gytbwys i gyfiawnhau barn. Byddant yn cyfleu syniadau'n gydlynus ac yn amrywio'u hiaith yn ôl pwrpas a chynulleidfa. Mewn trafodaeth byddant yn gwneud cyfraniadau cynnil a sensitif, gan werthuso syniadau gan eraill cyn gwneud cyfraniadau a fydd yn symud y drafodaeth yn ei blaen. Byddant yn defnyddio iaith lafar gywir a chyfoethog.
Perfformiad Eithriadol	Bydd y dysgwyr yn cymryd rhan yn hyderus a chydag effeithiolrwydd cyson mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cychwyn a chynnal trafodaeth ar dopigau ymestynnol, gan resymu gyda chanfyddiad a hyder, a chan ddangos meddwl annibynnol ac aeddfed. Byddant yn canolbwyntio wrth wrando cyn ymateb yn groyw ac yn dreiddgar i gyfraniadau cymhleth gan eraill. Bydd ganddynt safon uchel o iaith lafar gywir a chyhyrog, a byddant yn amrywio arddull a chywair yn ôl pwrpas a chynulleidfa.



Targed cyrhaeddiad 2: Darllen

Lefel 1	Bydd y dysgwyr yn adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml. Wrth ddarllen ar goedd byddant yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a'r berthynas rhwng seiniau a symbolau i ddarllen geiriau a phennu ystyr. Byddant yn ymateb i gerddi, storïau a deunydd ffeithiol drwy gyfeirio at yr hyn y maent yn ei hoffi.
Lefel 2	At ei gilydd bydd y dysgwyr yn darllen testunau syml yn gywir. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r prif ddigwyddiadau neu syniadau mewn storïau, cerddi a deunydd ffeithiol a byddant yn mynegi barn amdanynt. Byddant yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a phennu ystyr.
Lefel 3	Bydd y dysgwyr yn darllen ystod o destunau. Byddant yn darllen ar goedd gyda chywirdeb, rhuglder a phwyslais cynyddol. Byddant yn defnyddio strategaethau priodol er mwyn sefydlu ystyr. Byddant yn codi'r prif ffeithiau o destunau ac yn ymateb i'r deunydd y maent wedi ei ddarllen. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth o'r wyddor i ddod o hyd i lyfrau a gwybodaeth.
Lefel 4	Bydd y dysgwyr yn darllen yn glir ac yn llawn mynegiant. Wrth ymateb i amrywiaeth eang o destunau byddant yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau. Byddant yn cyfeirio at y testun wrth fynegi barn, ac yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r hyn sydd ymhlyg yn yr hyn a ddarllenant. Byddant yn cywain gwybodaeth am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell brint gan ei defnyddio'n briodol.
Lefel 5	Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau, yn dewis a dethol y prif bwyntiau ac yn dangos dealltwriaeth o'r hyn sydd ymhlyg ynddynt drwy dynnu casgliadau lle bo'n briodol. Wrth ymateb i ystod eang o destunau byddant yn mynegi barn ac yn cyfeirio at blot, cymeriadau ac ambell agwedd ar arddull gan ddethol geiriau, ymadroddion, brawddegau a gwybodaeth berthnasol i gefnogi safbwynt. Byddant yn cywain, galw i gof a threfnu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau.
Lefel 6	Wrth ddarllen a thrafod amrywiaeth eang o destunau, bydd y dysgwyr yn adnabod gwahanol haenau o ystyr ac yn cyflwyno sylwadau ar eu harwyddocâd a'u heffaith. Byddant yn mynegi barn ar amrywiaeth eang o destunau ac yn cynnig rhesymau dros eu sylwadau drwy gyfeirio at gynnwys, themâu, adeiladwaith ac agweddau ar iaith ac arddull. Byddant yn cywain, galw i gof a chrynhoi gwybodaeth berthnasol o amrywiol ffynonellau yn eglur.
Lefel 7	Wrth ddarllen a thrafod amrywiaeth eang o destunau, bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o'r modd y cyflëir ystyr ac y cyflwynir gwybodaeth. Byddant yn mynegi barn yn ddeheuig ar yr hyn a ddarllenant drwy gyfeirio at gynnwys, themâu, adeiladwaith, iaith ac arddull, a'u dadansoddi. Byddant yn cywain, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn effeithiol.
Lefel 8	Bydd y dysgwyr yn ymateb yn feddylgar i amrywiaeth eang o destunau drwy ddadansoddi a gwerthuso'r modd y cyflwynir ystyr. Byddant yn dadansoddi arddull yn fanwl, ac yn ffurfio barn drwy ddefnyddio tystiolaeth yn gytbwys. Byddant yn dethol, yn cyfuno ac yn dadansoddi syniadau a gwybodaeth, gan drafod y modd y cânt eu cyflwyno mewn gwahanol destunau.
Perfformiad Eithriadol	Bydd y dysgwyr yn ymateb yn hyderus a chydag aeddfedrwydd i destunau heriol drwy ddadansoddi a gwerthuso'r deunydd yn feirniadol a thrwy gyflwyno sylwadau manwl a threiddgar ar y modd y cyflëir ystyr ac y cyflwynir gwybodaeth. Byddant yn trafod testunau'n graff gan ystyried y gynulleidfa, y pwrpas, yr arddull a'r ffurf ac yn croesyfeirio'n effeithiol.



Targed cyrhaeddiad 3: Ysgrifennu

Lefel 1	Bydd y dysgwyr yn cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg gan ddechrau dangos ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio atalnod llawn. Fel rheol, caiff llythrennau eu ffurfio'n glir a'u cyfeirio'n gywir. Byddant yn dechrau deall gwahanol ddibenion a swyddogaethau iaith ysgrifenedig.
Lefel 2	Bydd gwaith ysgrifenedig y dysgwyr yn cyfleu ystyr. Byddant yn defnyddio geirfa addas a diddorol sy'n dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r darlennydd a'r ffurf. Yn fynych caiff syniadau eu datblygu mewn cyfres o frawddegau cysylltiedig. Byddant yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda pheth cysondeb. O ran llawysgrifen, bydd y llythrennau wedi'u ffurfio'n gywir ac yn gyson o ran maint ac fe'u defnyddir yn unol â chonfensiwn.
Lefel 3	Bydd y dysgwyr fel arfer yn ysgrifennu'n glir ac yn drefnus mewn ffurf greadigol a ffeithiol ar amrywiaeth o destunau. Byddant yn dangos peth gafael ar ffurf a dilyniant, yn datblygu syniadau'n synhwyrol, yn amrywio peth ar eu brawddegau, ac yn addasu eu gwaith ar adegau i bwrpas y darlennydd. Byddant yn dechrau creu effeithiau drwy ddethol geiriau addas i'r pwrpas. Byddant yn cynhyrchu cystrawennau a brawddegau sylfaenol yn weddol gywir, ac yn defnyddio atalnodi – priflythyren, gofynnod, collnod ac atalnod llawn – yn gywir ar y cyfan. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau strwythur a geiriau sylfaenol y pynciau a drafodir yn gywir. Bydd y llawysgrifen yn ddarllenadwy a chaiff y gwaith ei gyflwyno'n briodol.
Lefel 4	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n feddylgar a dychmygus gan ddangos gafael eithaf sicr ar ffurf. Mynegir barn yn syml ac yn aml byddant yn cynnal ac yn datblygu syniadau yn ddiddorol. Yn aml, byddant yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion i greu effeithiau. Defnyddiant gystrawennau mwy amrywiol a chymhleth yn weddol gywir. Byddant yn defnyddio paragraffau i gyflwyno'u gwaith yn drefnus ac mewn dilyniant i bwrpas y darlennydd. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau sydd o fewn eu profiad yn gywir gan ysgrifennu geiriau yn eu ffurf ysgrifenedig safonol lle bo'n briodol a threiglo'n gywir ar adegau. Byddant yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gywir ac yn dechrau atalnodi o fewn brawddeg gan ddefnyddio collnod a dyfynodau pan fo'u hangen. Bydd llawysgrifen yn glir, a byddant yn ysgrifennu'n rhwydd, gan addasu'r cyflwyniad yn ôl y dasg lle bo hynny'n briodol.
Lefel 5	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n glir, yn amrywiol ac yn ddiddorol i amrywiaeth o bwrpasau, gan ddangos sylwgarwch, dychymyg a gafael sicr ar ffurf. Byddant yn mynegi barn ac yn ei chefnogi ag ambell reswm. Yn aml, byddant yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion, gan ystyried pwnc, pwrpas, a natur y gynulleidfa. Bydd eu gwaith yn cynnwys paragraffau ac ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir a Chymraeg eu naws. Byddant yn atalnodi ac yn treiglo'n gywir fel rheol. Byddant yn defnyddio'u gwybodaeth o reolau sillafu er mwyn sillafu'n gywir. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Lefel 6	Bydd gwaith ysgrifennu'r dysgwyr yn denu ac yn cynnal diddordeb y darlennydd drwy'r dewis bwriadol o eirfa, ymadroddion a ffurfiau brawddegol wrth ddatblygu disgrifiadau, syniadau a dadleuon. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth at wahanol ddibenion ac yn mynegi barn gan ddatblygu rhai pwyntiau i gefnogi safbwynt. Byddant yn defnyddio arddull, iaith a chywair addas i'r ffurf yn briodol. Bydd ganddynt afael eithaf sicr ar gystrawen gywir ac idiom naturiol Gymraeg. Byddant yn treiglo ac yn sillafu – gan gynnwys geiriau afreolaidd – yn gywir fel rheol. Defnyddir ystod o atalnodi er mwyn egluro'r ystyr a threfnir syniadau mewn paragraffau. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Lefel 7	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n hyderus ac yn dewis arddull briodol mewn amrywiaeth eang o ffurfiau. Byddant yn dangos gallu cyson i ddefnyddio nodweddion a chonfensiynau ysgrifennu naratif ac ysgrifennu ffeithiol. Mewn naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus ac yn gydlynus. Byddant yn cynnal dadleuon gan gynnig tystiolaeth i gefnogi eu barn. Bydd eu defnydd o eirfa a chystrawen gywir, naturiol Gymraeg, yn adlewyrchu gofynion y dasg. Byddant yn sillafu geiriau cymhleth, afreolaidd yn gywir. Bydd y paragraffu, yr atalnodi, a'r gramadeg fel rheol yn gywir ac fe'u defnyddir i wneud y dilyniant yn glir i'r darlennydd. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Lefel 8	Bydd gwaith ysgrifennu'r dysgwyr yn dangos dyfnder, dawn a gwreiddioldeb. Byddant yn dangos y gallu i ddefnyddio'r mwyafrif o'r ffurfiau creadigol yn effeithiol ac yn hyderus, gan amrywio'r arddull a'r cywair yn ôl pwrpas y dasg. Wrth ysgrifennu naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus, yn gydlynus ac yn gynnil. Byddant yn adeiladu eu dadleuon, gan gynnig tystiolaeth yn gyson. Bydd eu hiaith yn gyfoethog ac yn gywir a bydd ganddynt afael dda ar ramadeg, atalnodi, sillafu a pharagraffu. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Perfformiad Eithriadol	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n dreiddgar ac yn gynnil gan ddefnyddio ystod o arddulliau a ffurfiau yn ddeheuig gan gynnal diddordeb y darlennydd. Byddant yn datblygu ac yn cynnal eu syniadau a'u dadleuon yn rhesymegol ac yn eglur, ac yn trin testunau dychmygus a ffeithiol ar dopigau ymestynnol mewn dull manwl a threfnus. Dangosant gyfoeth o adnoddau iaith a ddefnyddir yn gywir a chydag aeddfedrwydd i sicrhau rhuglder eu harddull. Bydd y paragraffau wedi'u strwythuro a'u cysylltu'n ofalus, gan gyfrannu at eglurder a threfn y darn fel cyfanwaith. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ymarfer ar lafar cyn ysgrifennu
- ymateb ar lafar i destunau di-dor a phytiog
- gwylio a chlywed gwahanol bobl yn siarad gan gynnwys pobl â thafodiaith wahanol a siaradwyr profiadol, ac ymateb i'r hyn a glywir ac a welir
- meithrin eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill
- ymateb ar lafar i ystod o symbyliadau ac ysgogiadau a syniadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *paentiadau, darn o gerddoriaeth, ffilm, delweddau llonydd a symudol*
- cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chyd-destunau, e.e. *adrodd yn ôl a chyflwyno gwybodaeth, rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau, dadlau ac esbonio safbwynt, trafod pwnc, perswadio, cwestiynu ac archwilio dehongliadau, cyflwyno profiadau*
- siarad a gwrando'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau gan gynnwys TGCh, dulliau drama, cynnal trafodaeth a dadl
- cyflwyno, siarad a pherfformio gerbron amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys dysgwyr iau a hŷn, athrawon, cyfoedion, oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol
- ymdrin â gweithgareddau lle y mae geiriau, eu tarddiad, eu hystyr, y rheswm dros eu dewis, a'u heffaith, yn ganolog
- gwylio a gwrando'n astud gan ymateb i amrywiaeth o symbyliadau ac ysgogiadau, e.e. *testunau ysgrifenedig a deinamig, perfformiadau theatrig a barddonol, siaradwyr gwadd, esboniadau, cyfarwyddiadau*
- cyfathrebu'n glir gan ynganu a goslefu'n briodol yn y Gymraeg, e.e. *llefaru, adrodd stori*
- defnyddio terminoleg sy'n addas i'r sefyllfa
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i drafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *gwaith awduron a chyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. <i>mynegiant, tŷn y llais, cryfder y sain</i>	cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, e.e. <i>strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy</i>	cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith, e.e. <i>cwestiynau rhethregol, apelio at y gwrandawyr, ystumiau</i>
		ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr yn adeiladol ac yn fanwl	ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio	ymateb i adwaith y gwrandawyr gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud
		dadlau'n llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc yn effeithiol, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>	amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>	cynnal dadl argyhoeddedig, rhagweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i>
		adnabod a deall pryd mae defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol ❖	gyda hyder cynyddol, adnabod a deall pryd mae defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol ❖	yn hyderus, defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol mewn gwahanol sefyllfaoedd ❖
		datblygu eu gallu i drefnu ac ymestyn eu hiaith lafar gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa effeithiol a manwl gywir (gan gynnwys terminoleg) i ennyn diddordeb y gwrandawyr ❖	trefnu ac ymestyn eu hiaith lafar, gyda pheth hyder gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a defnyddio geirfa effeithiol a manwl gywir (gan gynnwys terminoleg); gwneud cyfraniadau ystyrlon sy'n ennyn diddordeb y gwrandawyr ❖	ymestyn eu hiaith lafar yn hyderus gan ddefnyddio ystod o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg, geirfa effeithiol a manwl gywir (gan gynnwys terminoleg) a gwneud cyfraniadau ystyrlon a meddylgar sy'n ennyn diddordeb y gwrandawyr ❖
		meithrin cywirdeb gan ddangos hyder ar lafar, e.e. <i>defnyddio ystod o ffurfiau berfol (amser a pherson), negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid a chenedl enwau ❖</i>	meithrin cywirdeb gan ddangos hyder a gafael dda ar yr iaith lafar, e.e. <i>defnyddio ffurfiau berfol yn gywir (amser a pherson), negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid a chenedl enwau ❖</i>	meithrin cywirdeb gan ddangos hyder a gafael dda ar yr iaith lafar, e.e. <i>defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson), negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid a chenedl enwau'n gywir ❖</i>
		defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun
	Gwrando	ymateb yn bwylllog i syniadau eraill gan ofyn cwestiynau cymwys	ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol	ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt
		gwrando ar esboniadau o brosesau, dilyniant neu safbwyntiau a nodi'r prif bwyntiau yn eu trefn	gwrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio, e.e. <i>i amddiffyn barn, neu ei chamddefnyddio, e.e. i gamarwain drwy orliwio</i>	gwrando ar wybodaeth a syniadau ac adnabod sut maent yn cael eu cyflwyno i hybu safbwynt penodol, e.e. <i>defnyddio iaith sy'n darbwyllo/perswadio, anwybyddu ffeithiau anghyfleus, dod i gasgliad afresymegol</i>



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Cydweithio a thrafod	gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau, e.e. <i>arwain, annog a chefnogi eraill</i>	cymryd amrywiaeth o rolau, e.e. <i>trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith</i> , mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. <i>wrth weithio gydag oedolion neu gyfoedion anghyfarwydd</i>	ymgymryd ag amrywiaeth o rolau mewn trafodaeth grŵp gan gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu barn, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. <i>cadeirydd, ysgrifennydd</i>
		mynegi barn yn glir am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gefnogi'r farn honno â rhesymau a rhywfaint o dystiolaeth berthnasol ❖	mynegi barn yn glir am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gefnogi'r farn honno â rhesymau a thystiolaeth berthnasol ❖	mynegi barn yn hyderus am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan roi rhesymau a thystiolaeth berthnasol i gyd-fynd â'u syniadau hwy eu hunain a syniadau eraill ❖
		cyrraedd consensws a chytuno ar gamau gweithredu mewn grwpiau, e.e. <i>cytuno ar gynllun, pwyso a mesur rhesymau a thystiolaeth</i> .	trafod safbwyntiau cyferbyniol a thrafod y camau nesaf.	nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddarllen ystod eang o destunau di-dor a phytiog, mewn fformat print neu mewn ffurf ddeinamig fel sail i'w hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai'r rhain gynnwys:
 - testunau cyflawn a detholiadau
 - testunau gwybodaeth a chyfeiriol
 - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
 - nofelau graffig
 - drama a pherfformiadau drama
 - testunau sy'n ymwneud â phynciau heriol sy'n ehangu'r gorwelion, sy'n datblygu'r gallu i ymresymu
 - testunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau, ffurfiau, pwrpasau, sy'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd a dyfeisiau cyflwyno gwahanol
 - testunau sy'n gyfoethog o ran safon ac amrywiaeth ieithyddol
 - testunau sy'n adlewyrchu dewis darllen personol dysgwyr
 - testunau ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
 - testunau sy'n ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol dysgwyr
 - testunau sy'n amrywio o ran tôn, e.e. *testunau sy'n cynnwys parodi neu eironi, testunau sy'n chwarae ar eiriau, testunau coeglyd/ensyniad*
 - testunau sy'n cynnig her
 - testunau sy'n dangos effaith technoleg ar yr iaith
- deall sut mae testunau'n esblygu wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol a thechnolegol
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, e.e. *darllen mewn parau, darllen mewn grŵp dan arweiniad, darllen ar y cyd*
- darllen at ddibenion gwahanol, e.e. *er mwynhad personol, i adalw gwybodaeth, i grynhoi a chyfosod gwybodaeth allweddol, i ddehongli a chyfuno gwybodaeth, i ddilysu gwybodaeth, i gyfoethogi dealltwriaeth drwy ail-ddarllen, i adnabod dyfeisiau iaith a defnyddir gan yr awdur, i ddadansoddi pwrpas ac i dreiddio dan groen testun am ystyr*
- datblygu'r iaith a'r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, beirdd, eu cyfoedion*, mewn testunau ysgrifenedig a deinamig.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	defnyddio’u gwybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> – tarddiadau a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan	defnyddio’u gwybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> – tarddiadau a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan	defnyddio’u gwybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> – tarddiadau a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
		defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i> , i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a’r themâu allweddol, a’u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl	defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i> , i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a’r themâu allweddol, a’u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl	defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i> , i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a’r themâu allweddol, a’u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl
		adnabod a deall nodweddion ystod eang a gwahanol o destunau heriol (di-dor a phytiog) o ran iaith, thema, strwythur a chyflwyniad y testun ❖	yn hyderus, adnabod a deall beth yw nodweddion ystod eang a gwahanol o destunau heriol (di-dor a phytiog) o ran iaith, thema, strwythur a chyflwyniad y testun ❖	yn annibynnol, adnabod a deall beth yw nodweddion ystod eang a gwahanol o destunau heriol (di-dor a phytiog) o ran iaith, thema, strwythur a chyflwyniad y testun ❖
		asesu ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ar dudalennau’r rhynggrwyd gan ystyried o ble mae’n dod a gwirio pa mor gywir yw hi	dewis a dethol pa ffynonellau ar y rhynggrwyd i’w lawrlwytho neu i’w dyfynnu, yn ôl eu dibynadwyedd a’u perthnasedd	defnyddio’r rhynggrwyd yn llawn gan ddethol yn ofalus er mwyn diweddarau, ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion
Ymateb i’r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt	canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt	canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt
		dewis y prif bwyntiau mewn testunau ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i’w hategu	dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a’u defnyddio’n ddethol	chwilio am ddeunyddiau ychwanegol mewn testunau a’u defnyddio i ehangu dealltwriaeth
		darllen rhwng y llinellau gan ddehongli a dod i gasgliad	defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr	dod i ddeall testunau’n llawn gan ddefnyddio technegau casglu, dehongli a dadansoddi
		adnabod sut trefnir testun, e.e. <i>yn rhesymegol neu’n thematig</i> , er mwyn gwneud i’r cynnwys fod yn eglur ac yn llawn gwybodaeth	gwneud cysylltiadau rhwng testunau, eu themâu a’u cynnwys ffeithiol ac adnabod unrhyw bwyntiau sy’n cytuno â’i gilydd neu sy’n gwrth-ddweud ei gilydd	cymharu a chyferbynnu themâu a materion ar draws ystod o destunau



Llinyn: Darllen

		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	dilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil	darllen o amgylch pwnc sydd o ddiddordeb iddynt a datblygu dealltwriaeth ehangach drwy ymchwilio	ymchwilio i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth lawn o bwnc
		adnabod ac esbonio'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol mewn testunau di-dor a/neu bytiog, e.e. o ran <i>thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriadaeth</i> ❖	dadansoddi'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol mewn testunau di-dor a/neu bytiog, e.e. o ran <i>thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriadaeth</i> ❖	cymharu'n ofalus gan dynnu sylw at yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol mewn testunau di-dor a/neu bytiog, e.e. o ran <i>thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriadaeth</i> ❖
	Ymateb a dadansoddi	cydgasglu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol, e.e. <i>dwyn ynghyd a chrynhoi ffeithiau a syniadau am bwnc, o destunau gwahanol</i>	crynhoi a chyfuno gwybodaeth, e.e. <i>cyfrif cryno o bwnc eang, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol</i>	cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn hybu dealltwriaeth ddofn, e.e. o <i>achosion, canlyniadau, patrymau</i> , gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol
		gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn gan ddefnyddio tystiolaeth i ddangos y gwahaniaethau	gwahaniaethu rhwng rhagfarn a barn wrthrychol gan esbonio sut maent yn wahanol	gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadl
		cymharu safbwyntiau ar yr un pwnc a phwyso a mesur p'un yw'r mwyaf dilys	adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud	adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a'u cloriannu
		darllen a thrafod ystod o destunau di-dor a phytiog yn hyderus gan ddangos dealltwriaeth ac amgyffredd wrth ymateb yn bersonol a gallu cyfiawnhau'r ymateb hwnnw ❖	darllen a thrafod ystod o destunau di-dor a phytiog yn hyderus gan ddangos dealltwriaeth ac amgyffredd yn ogystal â'r gallu i gyfiawnhau eu barn wrth ymateb ❖	darllen a thrafod ystod eang o destunau di-dor a phytiog yn hyderus gan werthfawrogi a dadansoddi'n barhaus wrth ymateb yn bersonol ❖
		ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwylio gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, y naws a'r cyflwyniad gan ddefnyddio tystiolaeth o'r testun i gefnogi eu barn ❖	ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwylio gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, y naws a'r cyflwyniad gan ddefnyddio tystiolaeth addas o'r testun i gefnogi eu barn ❖	ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwylio gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, y naws a'r cyflwyniad gan ddewis a dethol tystiolaeth o'r testun i gefnogi eu barn bersonol neu feirniadol ❖
		nodi sut mae testunau'n newid pan fyddant yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd gan ystyried yr effaith a fwriadwyd ar y darllenydd/cynulleidfa, e.e. <i>fersiwn y ffilm a'r nofel Tân ar y Comin</i> ❖	ystyried sut y mae testunau'n newid pan fyddant yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a chynulleidfaoedd gan drafod yr effaith a fwriadwyd ar y darllenydd/cynulleidfa ❖	ystyried sut y mae testunau'n cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau gan ddadansoddi eu diben a'r effaith a fwriadwyd ar y darllenydd/cynulleidfa ❖
gwerthuso cynnwys, cyflwyniad ac apêl testun.	gwerthuso testunau yn ôl eu hansawdd a'u lefel diddordeb.	gwerthuso pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw testunau.		



Llinyn: Ysgrifennu

Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion gan gynnwys:
 - adrodd yn ôl
 - rhoi cyfarwyddiadau
 - cyflwyno gwybodaeth
 - esbonio
 - dadlau/perswadio
 - trafod/dadansoddi
 - gwerthuso
 - adrodd stori
 - disgrifio
 - cydymdeimlo/dangos empathi
- ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth ac ystod o destunau di-dor a phytig mewn amryw o ffurfiau, e.e. *llythyron, dyddiaduron, erthyglau, storiâu, adroddiadau, areithiau, dramâu a sgriptiau, taflenni gwybodaeth, hysbysebion, poster, tudalennau a thestun i'r we, holiaduron, adolygiadau, ymsonau*
- ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygol, e.e. *cyfoedion, dysgwyr iau, athrawon, aelodau teulu, cymeriadau hanesyddol a ffuglennol*
- ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, e.e. *odlau a ffurf*
- defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *storiâu, llyfrau lluniau, delweddau, cerddi, profiadau, ffilmiau, paentiadau a cherddoriaeth*
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, cyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon canlynol.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr am bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn addas at y diben	addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, e.e. <i>dewis faint o fanylion sy'n anghenrheidiol i argyhoeddi</i>	crynhoi, trafod materion ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben
		gan ddangos creadigrwydd, defnyddio nodweddion ystod eang o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu; addasu'r arddull a'r cywair i gynnal diddordeb y darlennydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	gan ddangos creadigrwydd, defnyddio nodweddion ystod eang o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu; addasu'r arddull a'r cywair yn hyderus i gynnal diddordeb y darlennydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖	gan ddangos creadigrwydd, defnyddio nodweddion ystod eang o destunau di-dor a phytiog yn eu hysgrifennu gan ddangos rheolaeth a meistrolaeth i gynnal diddordeb y darlennydd gan ddefnyddio dychymyg lle bo'n briodol ❖
		esbonio syniadau'n gyflawn gan ddangos goblygiadau a chanlyniadau	gwneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r pwnc	pwysu a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â phwnc
		cynllunio gwaith ysgrifennu gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith, e.e. <i>paratoi achos ar gyfer rhywbeth, dewis manylion sy'n helpu'r darlennydd i ddeall</i>	wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben	cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol
		defnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu	ystyried y ffyrdd gorau o gyflwyno ysgrifennu gan ddefnyddio TGCh er mwyn cyfathrebu'n glir ac effeithiol, e.e. <i>rhyddiaith ddi-dor ar gyfer dadl fanwl, tudalennau â hyperddolenni ar gyfer gwybodaeth wahanol am y pwnc, graffigau sy'n symud i ddangos prosesau</i>	gwneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh drwy wahaniaethu
		prawf ddarllen a gwerthuso'u gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill drwy ddefnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion gan wneud awgrymiadau clir ar gyfer ei wella gan olygu/aiddrafftio'u gwaith i ddangos cynnydd ❖	prawf ddarllen a gwerthuso'u gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill drwy ddefnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion gan wneud awgrymiadau clir a chraff ar gyfer ei wella gan olygu/aiddrafftio'u gwaith i ddangos cynnydd ❖	prawf ddarllen a gwerthuso'u gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill drwy ddefnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion gan wneud awgrymiadau clir a chraff ar gyfer ei wella gan olygu/aiddrafftio'u gwaith i ddangos cynnydd ❖
		nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac aiddrafftio	defnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna aiddrafftio	gwella'u gwaith ysgrifennu drwy ei adolygu'n annibynnol a'i aiddrafftio



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Strwythur a threfn	addasu strwythurau wrth ysgrifennu ar gyfer cyd-destunau gwahanol, e.e. <i>disgrifio canlyniad, amlinellu proses neu drafod dadl</i>	defnyddio strwythur testun cyfan i fod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, e.e. <i>gosod crynodeb ar y cychwyn neu'r diwedd, data mewn adroddiad neu atodiad, defnydd o dudalennau cynnwys, penodau</i>	dewis a dethol strwythurau testun cyfan er mwyn bod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, e.e. <i>beth yw'r strwythurau gorau i ddisgrifio, esbonio a pherswadio'n llwyddiannus?</i>
		dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn	dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol	dewis strwythurau i drefnu gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio nodweddion priodol yn effeithiol
		defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau	trefnu darnau ysgrifennu hirach gan wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau	dewis, dadansoddi a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol
Ysgrifennu'n gywir	Iaith	dewis a defnyddio geiriau'n ofalus; meddu ar ystod eang o eirfa ddychmygus a mentrus ❖	dewis a defnyddio geiriau'n ofalus; meddu ar ystod eang o eirfa i greu effaith ❖	dewis a defnyddio geiriau'n ofalus; meddu ar eirfa soffistigedig i greu effaith ❖
		defnyddio iaith amhersonol i gyfleu syniadau a gwybodaeth, e.e. <i>mae'r llog yn cael ei gyfrifo gan ... , mae siswrn miniog yn angenrheidiol i ...</i>	defnyddio'r trydydd person i gyfleu syniadau a gwybodaeth, e.e. <i>yn ôl arbenigwyr ... , dywed ffynonellau fod ...</i>	defnyddio iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd, e.e. <i>mae sawl agwedd wahanol ar y pwnc hwn ...</i>
		defnyddio geirfa amrywiol a phwrpasol yn gywir gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol	defnyddio termau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc	defnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc
	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	dangos gafael dda ar gystrawen a phatrymau naturiol y Gymraeg gan saernïo'u hiaith a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>negyddu brawddegau, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau ❖</i>	dangos gafael dda ar gystrawen a phatrymau naturiol y Gymraeg gan saernïo'u hiaith yn hyderus a meithrin cywirdeb wrth ysgrifennu, e.e. <i>negyddu brawddegau, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau ❖</i>	dangos gafael sicr ar gystrawen a phatrymau naturiol y Gymraeg gan saernïo'u hiaith yn hyderus wrth ysgrifennu, e.e. <i>negyddu brawddegau, rhedeg berfau ac arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau ❖</i>
		defnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg gan ddewis cysyllteiriau i wneud i'r ystyr fod yn glir	ysgrifennu'n ramadegol gywir, gan amrywio hyd a strwythur brawddegau i wneud i'r ystyr fod yn glir	ysgrifennu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth yn ramadegol gywir
	ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd-destun	ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun	ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun	



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ysgrifennu'n gywir	Cystrawen	defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun
	Atalnodi	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnod)</i> , a defnyddio collnodau'n gywir	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>yr hanner colon, y colon a dyfynodau</i>	defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>yr hanner colon, y colon a chromfachau</i>
	Sillafu	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
	Llawysgrifen	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.	cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg

Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai dysgwyr sy'n gweithio ar ddeiliant penodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ynghylch deiliant cyrhaeddiad dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y dysgwr. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

Llafaredd

- Deiliant 1** Bydd y dysgwyr yn deall ac yn defnyddio gwrthrychau cyfeirio, symbolau, arwyddion neu eiriau unigol ar gyfer gwrthrychau, digwyddiadau a theimladau cyfarwydd. Byddant yn ymateb i geisiadau syml sy'n cynnwys un neu ddau symbol, arwydd neu air allweddol mewn cyd-destunau cyfarwydd.
- Deiliant 2** Bydd y dysgwyr yn cyfuno dau neu dri symbol, arwydd neu air allweddol i gyfleu ystyr i ystod o bobl gyfarwydd. Byddant yn ymateb i gwestiynau syml ('beth?', 'ble?') ac yn dilyn cyfarwyddiadau sy'n cynnwys dau neu dri symbol, arwydd neu air allweddol.
- Deiliant 3** Bydd y dysgwyr yn defnyddio hyd at bedwar symbol, arwydd neu air allweddol i drefnu'u meddyliau a chyfleu gwybodaeth neu storïau i bobl eraill – gan gynnwys rhai pobl sy'n llai cyfarwydd iddynt. Byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau ('pwy?', 'pam?') ac yn dilyn cyfarwyddiadau sy'n cynnwys tri neu bedwar symbol, arwydd neu air allweddol. Byddant yn cymryd rhan mewn trafodaethau un i un, trafodaethau mewn grwpiau bach a gweithgareddau chwarae rôl, a byddant yn gwrando ar storïau am gyfnodau cynyddol o amser.

Darllen

- Deiliant 1** Bydd y dysgwyr yn gwrando ar storïau a rhigymau cyfarwydd ac yn ymateb iddynt. Byddant yn dangos peth dealltwriaeth o'r modd y mae llyfrau'n gweithio (e.e. troi tudalennau). Byddant yn cysylltu gwrthrychau â lluniau a symbolau.
- Deiliant 2** Bydd y dysgwyr yn adnabod rhai symbolau neu eiriau sy'n gysylltiedig â'u diddordebau personol a byddant yn dechrau gwahaniaethu rhwng y rheiny a lluniau. Byddant yn cysylltu llythrennau a geiriau byr â'i gilydd.
- Deiliant 3** Bydd y dysgwyr yn dilyn olyniaeth o'r chwith i'r dde, yn ymuno mewn rhigymau ac yn llenwi bylchau mewn testun naratif cyfarwydd neu ailadroddus. Byddant yn adnabod rhai o lythrennau'r wyddor (wrth eu siâp, eu henw neu'u sain) a nifer cynyddol o eiriau a symbolau cyffredin. Byddant yn deall confensiwn darllen ac yn gwybod bod i brint ystyr. Byddant yn dechrau gwahaniaethu rhwng seiniau arbennig, ac efallai y byddant yn cysylltu'r seiniau hyn â phatrymau llythrennau.

Ysgrifennu

- Deiliant 1** Bydd y dysgwyr yn dechrau deall bod marciau a symbolau yn cyfleu ystyr. Byddant yn cynhyrchu marciau neu symbolau yn y dull o gyfathrebu sydd orau ganddynt.
- Deiliant 2** Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu peth print neu rai symbolau ystyrion sy'n gysylltiedig â'u diddordebau. Byddant yn dargopio llinellau a siapiau, yn ysgrifennu uwch eu pennau ac yna'n copïo llinellau a siapiau, gan ddechrau cynhyrchu llythrennau neu symbolau sy'n hawdd eu hadnabod ac sy'n aml yn gysylltiedig â'u henw nhw eu hunain.
- Deiliant 3** Bydd y dysgwyr yn rhoi llythrennau at ei gilydd mewn grwpiau ac yn gadael bylchau rhyngddynt, fel pe baent yn ysgrifennu geiriau. Byddant yn dechrau defnyddio lluniau, symbolau a geiriau cyfarwydd mewn trefn i gyfleu ystyr, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o wahanol ddibenion ysgrifennu. Byddant yn ysgrifennu ychydig eiriau cyfarwydd gan ddefnyddio priflythrennau a llythrennau bach yn briodol fel rheol.

Disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r dysgwyr sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y dysgwr. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, mae'n debygol y bydd perfformiad y mwyafrif mawr o'r dysgwyr yn dod o fewn ystod Lefelau 3 i 6, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 4 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddysgwyr galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.



Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd

Lefel 1	Bydd y dysgwyr yn siarad am faterion cyfarwydd fel unigolion ac mewn grwpiau. Byddant yn siarad yn ddealladwy ac yn ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml. O gael cefnogaeth, byddant yn cyfleu gwybodaeth syml, yn ymateb i symbyliadau ac yn cynnwys rhai manylion.
Lefel 2	Bydd y dysgwyr yn dechrau dangos hyder, yn arbennig wrth sgwrsio am faterion sydd o fewn eu profiad a'u diddordeb. Ar adegau, byddant yn ymateb yn briodol ac yn cynnwys manylion addas. Byddant yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, ac yn ymateb i ystod ehangach o symbyliadau. Byddant yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy wrth ddatblygu ac esbonio eu syniadau, a byddant yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer.
Lefel 3	Bydd y dysgwyr yn sgwrsio gyda pheth hyder mewn gwahanol gyd-destunau am brofiadau a digwyddiadau gan ddangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant. Byddant yn gwrando'n ofalus ar eraill, yn ymateb yn berthnasol iddynt ac yn dechrau gofyn cwestiynau priodol. Byddant yn dechrau addasu eu siarad yn ôl gofynion y gynulleidfa. Byddant yn mynegi barn yn syml ac yn siarad gyda pheth cywirdeb gan ynganu a goslefu'n briodol ac amrywio geirfa a chywair. Byddant yn cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur gan amrywio brawddegau'n bwrpasol. Byddant yn dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn yr iaith a glywant o'u cwmpas.
Lefel 4	Bydd y dysgwyr yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth, yn sôn am brofiadau, yn ymateb yn fanwl ac yn dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant. Byddant yn mynegi barn yn glir gan gynnwys rhesymau ar adegau. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o ofynion cynulleidfa drwy ddechrau amrywio llais, goslef ac ystum. Mewn trafodaeth, byddant yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol i gyfraniadau eraill. Byddant yn siarad yn rhwydd ac yn ddealladwy, gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol gyda mesur da o gywirdeb.
Lefel 5	Bydd y dysgwyr yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Byddant yn rhoi sylw manwl i gyfraniadau eraill, drwy holi er mwyn derbyn syniadau a chyfrannu mewn modd sy'n ystyried safbwynt eraill. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ddilyniant drwy ddatblygu eu sgwrs yn bwrpasol. Byddant yn cadw diddordeb gwrandawyr drwy amrywio'u sgwrs at y diben gan ddefnyddio llais, goslef ac ystum yn ôl gofynion y cyd-destun. Wrth fynegi barn, byddant yn rhoi rhesymau'n gyson i gefnogi'r farn honno. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol, ac yn dangos gafael weddol dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.
Lefel 6	Bydd y dysgwyr yn addasu eu sgwrs yn ôl gofynion amrywiaeth eang o gyd-destunau, ac yn cyflwyno gwybodaeth a phrofiadau yn fwyfwy hyderus. Byddant yn ennyn diddordeb eraill drwy amrywio eu mynegiant a'u geirfa. Mewn trafodaeth byddant yn meddwl yn ofalus am yr hyn a ddywed eraill, gan ystyried sut a phryd i ymateb. Byddant yn mynegi barn gan ddefnyddio tystiolaeth ar brydiau. Byddant yn dangos gafael eithaf sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar ac yn amrywio geirfa a mynegiant yn ôl y cywair.
Lefel 7	Bydd y dysgwyr yn addasu eu sgwrs yn bwrpasol ac yn defnyddio iaith briodol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cyfathrebu'n eglur a threfnus gan ddangos peth blaengaredd. Byddant yn mynegi barn gan ddethol tystiolaeth i gefnogi eu safbwynt. Mewn trafodaeth, byddant yn gwneud cyfraniadau sensitif a meddylgar wrth werthuso syniadau eraill. Byddant yn dangos gafael gadarn ar gystrawen yr iaith lafar ac yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau iaith.
Lefel 8	Bydd y dysgwyr yn cyfrannu ac yn dangos blaengaredd mewn trafodaeth ar wahanol bynciau gydag ystod o wrandawyr. Byddant yn ymdrin â gwybodaeth o amrywiol ffynonellau ac yn defnyddio tystiolaeth yn gytbwys i gyfiawnhau barn. Byddant yn cyfleu syniadau'n gydlynus ac yn amrywio'u hiaith yn ôl pwrpas a chynulleidfa. Mewn trafodaeth byddant yn gwneud cyfraniadau cynnil a sensitif, gan werthuso syniadau gan eraill cyn gwneud cyfraniadau a fydd yn symud y drafodaeth yn ei blaen. Byddant yn defnyddio iaith lafar gywir a chyfoethog.
Perfformiad Eithriadol	Bydd y dysgwyr yn cymryd rhan yn hyderus a chydag effeithiolrwydd cyson mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddant yn cychwyn a chynnal trafodaeth ar dopigau ymestynnol, gan resymu gyda chanfyddiad a hyder, a chan ddangos meddwl annibynnol ac aeddfed. Byddant yn canolbwyntio wrth wrando cyn ymateb yn groyw ac yn dreiddgar i gyfraniadau cymhleth gan eraill. Bydd ganddynt safon uchel o iaith lafar gywir a chyhyrog, a byddant yn amrywio arddull a chywair yn ôl pwrpas a chynulleidfa.



Targed cyrhaeddiad 2: Darllen

Lefel 1	Bydd y dysgwyr yn adnabod geiriau cyfarwydd mewn testunau syml. Wrth ddarllen ar goedd byddant yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a'r berthynas rhwng seiniau a symbolau i ddarllen geiriau a phennu ystyr. Byddant yn ymateb i gerddi, storïau a deunydd ffeithiol drwy gyfeirio at yr hyn y maent yn ei hoffi.
Lefel 2	At ei gilydd bydd y dysgwyr yn darllen testunau syml yn gywir. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r prif ddigwyddiadau neu syniadau mewn storïau, cerddi a deunydd ffeithiol a byddant yn mynegi barn amdanynt. Byddant yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a phennu ystyr.
Lefel 3	Bydd y dysgwyr yn darllen ystod o destunau. Byddant yn darllen ar goedd gyda chywirdeb, rhuglder a phwyslais cynyddol. Byddant yn defnyddio strategaethau priodol er mwyn sefydlu ystyr. Byddant yn codi'r prif ffeithiau o destunau ac yn ymateb i'r deunydd y maent wedi ei ddarllen. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth o'r wyddor i ddod o hyd i lyfrau a gwybodaeth.
Lefel 4	Bydd y dysgwyr yn darllen yn glir ac yn llawn mynegiant. Wrth ymateb i amrywiaeth eang o destunau byddant yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau. Byddant yn cyfeirio at y testun wrth fynegi barn, ac yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r hyn sydd ymhlyg yn yr hyn a ddarllenant. Byddant yn cywain gwybodaeth am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell brint gan ei defnyddio'n briodol.
Lefel 5	Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau, yn dewis a dethol y prif bwyntiau ac yn dangos dealltwriaeth o'r hyn sydd ymhlyg ynddynt drwy dynnu casgliadau lle bo'n briodol. Wrth ymateb i ystod eang o destunau byddant yn mynegi barn ac yn cyfeirio at blot, cymeriadau ac ambell agwedd ar arddull gan ddethol geiriau, ymadroddion, brawddegau a gwybodaeth berthnasol i gefnogi safbwynt. Byddant yn cywain, galw i gof a threfnu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau.
Lefel 6	Wrth ddarllen a thrafod amrywiaeth eang o destunau, bydd y dysgwyr yn adnabod gwahanol haenau o ystyr ac yn cyflwyno sylwadau ar eu harwyddocâd a'u heffaith. Byddant yn mynegi barn ar amrywiaeth eang o destunau ac yn cynnig rhesymau dros eu sylwadau drwy gyfeirio at gynnwys, themâu, adeiladwaith ac agweddau ar iaith ac arddull. Byddant yn cywain, galw i gof a chrynhoi gwybodaeth berthnasol o amrywiol ffynonellau yn eglur.
Lefel 7	Wrth ddarllen a thrafod amrywiaeth eang o destunau, bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o'r modd y cyflëir ystyr ac y cyflwynir gwybodaeth. Byddant yn mynegi barn yn ddeheuig ar yr hyn a ddarllenant drwy gyfeirio at gynnwys, themâu, adeiladwaith, iaith ac arddull, a'u dadansoddi. Byddant yn cywain, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth o amrywiol ffynonellau yn effeithiol.
Lefel 8	Bydd y dysgwyr yn ymateb yn feddylgar i amrywiaeth eang o destunau drwy ddadansoddi a gwerthuso'r modd y cyflwynir ystyr. Byddant yn dadansoddi arddull yn fanwl, ac yn ffurfio barn drwy ddefnyddio tystiolaeth yn gytbwys. Byddant yn dethol, yn cyfuno ac yn dadansoddi syniadau a gwybodaeth, gan drafod y modd y cânt eu cyflwyno mewn gwahanol destunau.
Perfformiad Eithriadol	Bydd y dysgwyr yn ymateb yn hyderus a chydag aeddfedrwydd i destunau heriol drwy ddadansoddi a gwerthuso'r deunydd yn feirniadol a thrwy gyflwyno sylwadau manwl a threiddgar ar y modd y cyflëir ystyr ac y cyflwynir gwybodaeth. Byddant yn trafod testunau'n graff gan ystyried y gynulleidfa, y pwrpas, yr arddull a'r ffurf ac yn croesyfeirio'n effeithiol.



Targed cyrhaeddiad 3: Ysgrifennu

Lefel 1	Bydd y dysgwyr yn cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg gan ddechrau dangos ymwybyddiaeth o sut i ddefnyddio atalnod llawn. Fel rheol, caiff llythrennau eu ffurfio'n glir a'u cyfeirio'n gywir. Byddant yn dechrau deall gwahanol ddibenion a swyddogaethau iaith ysgrifenedig.
Lefel 2	Bydd gwaith ysgrifenedig y dysgwyr yn cyfleu ystyr. Byddant yn defnyddio geirfa addas a diddorol sy'n dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r darlennydd a'r ffurf. Yn fynych caiff syniadau eu datblygu mewn cyfres o frawddegau cysylltiedig. Byddant yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda pheth cysondeb. O ran llawysgrifen, bydd y llythrennau wedi'u ffurfio'n gywir ac yn gyson o ran maint ac fe'u defnyddir yn unol â chonfensiwn.
Lefel 3	Bydd y dysgwyr fel arfer yn ysgrifennu'n glir ac yn drefnus mewn ffurf greadigol a ffeithiol ar amrywiaeth o destunau. Byddant yn dangos peth gafael ar ffurf a dilyniant, yn datblygu syniadau'n synhwyrol, yn amrywio peth ar eu brawddegau, ac yn addasu eu gwaith ar adegau i bwrpas y darlennydd. Byddant yn dechrau creu effeithiau drwy ddethol geiriau addas i'r pwrpas. Byddant yn cynhyrchu cystrawennau a brawddegau sylfaenol yn weddol gywir, ac yn defnyddio atalnodi – priflythyren, gofynnod, collnod ac atalnod llawn – yn gywir ar y cyfan. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau strwythur a geiriau sylfaenol y pynciau a drafodir yn gywir. Bydd y llawysgrifen yn ddarllenadwy a chaiff y gwaith ei gyflwyno'n briodol.
Lefel 4	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n feddylgar a dychmygus gan ddangos gafael eithaf sicr ar ffurf. Mynegir barn yn syml ac yn aml byddant yn cynnal ac yn datblygu syniadau yn ddiddorol. Yn aml, byddant yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion i greu effeithiau. Defnyddiant gystrawennau mwy amrywiol a chymhleth yn weddol gywir. Byddant yn defnyddio paragraffau i gyflwyno'u gwaith yn drefnus ac mewn dilyniant i bwrpas y darlennydd. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau sydd o fewn eu profiad yn gywir gan ysgrifennu geiriau yn eu ffurf ysgrifenedig safonol lle bo'n briodol a threiglo'n gywir ar adegau. Byddant yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gywir ac yn dechrau atalnodi o fewn brawddeg gan ddefnyddio collnod a dyfynodau pan fo'u hangen. Bydd llawysgrifen yn glir, a byddant yn ysgrifennu'n rhwydd, gan addasu'r cyflwyniad yn ôl y dasg lle bo hynny'n briodol.
Lefel 5	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n glir, yn amrywiol ac yn ddiddorol i amrywiaeth o bwrpasau, gan ddangos sylwgarwch, dychymyg a gafael sicr ar ffurf. Byddant yn mynegi barn ac yn ei chefnogi ag ambell reswm. Yn aml, byddant yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion, gan ystyried pwnc, pwrpas, a natur y gynulleidfa. Bydd eu gwaith yn cynnwys paragraffau ac ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir a Chymraeg eu naws. Byddant yn atalnodi ac yn treiglo'n gywir fel rheol. Byddant yn defnyddio'u gwybodaeth o reolau sillafu er mwyn sillafu'n gywir. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Lefel 6	Bydd gwaith ysgrifennu'r dysgwyr yn denu ac yn cynnal diddordeb y darlennydd drwy'r dewis bwriadol o eirfa, ymadroddion a ffurfiau brawddegol wrth ddatblygu disgrifiadau, syniadau a dadleuon. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth at wahanol ddibenion ac yn mynegi barn gan ddatblygu rhai pwyntiau i gefnogi safbwynt. Byddant yn defnyddio arddull, iaith a chywair addas i'r ffurf yn briodol. Bydd ganddynt afael eithaf sicr ar gystrawen gywir ac idiom naturiol Gymraeg. Byddant yn treiglo ac yn sillafu – gan gynnwys geiriau afreolaidd – yn gywir fel rheol. Defnyddir ystod o atalnodi er mwyn egluro'r ystyr a threfnir syniadau mewn paragraffau. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Lefel 7	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n hyderus ac yn dewis arddull briodol mewn amrywiaeth eang o ffurfiau. Byddant yn dangos gallu cyson i ddefnyddio nodweddion a chonfensiynau ysgrifennu naratif ac ysgrifennu ffeithiol. Mewn naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus ac yn gydlynus. Byddant yn cynnal dadleuon gan gynnig tystiolaeth i gefnogi eu barn. Bydd eu defnydd o eirfa a chystrawen gywir, naturiol Gymraeg, yn adlewyrchu gofynion y dasg. Byddant yn sillafu geiriau cymhleth, afreolaidd yn gywir. Bydd y paragraffu, yr atalnodi, a'r gramadeg fel rheol yn gywir ac fe'u defnyddir i wneud y dilyniant yn glir i'r darlennydd. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Lefel 8	Bydd gwaith ysgrifennu'r dysgwyr yn dangos dyfnder, dawn a gwreiddioldeb. Byddant yn dangos y gallu i ddefnyddio'r mwyafrif o'r ffurfiau creadigol yn effeithiol ac yn hyderus, gan amrywio'r arddull a'r cywair yn ôl pwrpas y dasg. Wrth ysgrifennu naratif, byddant yn datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd, ac wrth ysgrifennu'n ffeithiol bydd eu syniadau'n drefnus, yn gydlynus ac yn gynnil. Byddant yn adeiladu eu dadleuon, gan gynnig tystiolaeth yn gyson. Bydd eu hiaith yn gyfoethog ac yn gywir a bydd ganddynt afael dda ar ramadeg, atalnodi, sillafu a pharagraffu. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.
Perfformiad Eithriadol	Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'n dreiddgar ac yn gynnil gan ddefnyddio ystod o arddulliau a ffurfiau yn ddeheuig gan gynnal diddordeb y darlennydd. Byddant yn datblygu ac yn cynnal eu syniadau a'u dadleuon yn rhesymegol ac yn eglur, ac yn trin testunau dychmygus a ffeithiol ar dopigau ymestynnol mewn dull manwl a threfnus. Dangosant gyfoeth o adnoddau iaith a ddefnyddir yn gywir a chydag aeddfedrwydd i sicrhau rhuglder eu harddull. Bydd y paragraffau wedi'u strwythuro a'u cysylltu'n ofalus, gan gyfrannu at eglurder a threfn y darn fel cyfanwaith. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ymarfer ar lafar cyn ysgrifennu
- ymateb ar lafar i destunau di-dor a phytig
- gwyllo a chlywed gwahanol bobl yn siarad gan gynnwys pobl â thafodiaith wahanol a siaradwyr profiadol, ac ymateb i'r hyn a glywir ac a welir
- meithrin eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill
- ymateb ar lafar i ystod o symbyliadau ac ysgogiadau a syniadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *paentiadau, darn o gerddoriaeth, ffilm, delweddau llonydd a symudol*
- cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chyd-destunau, e.e. *adrodd yn ôl a chyflwyno gwybodaeth, rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau, dadlau ac esbonio safbwynt, trafod pwnc, perswadio, cwestiynu ac archwilio dehongliadau, cyflwyno profiadau*
- siarad a gwrando'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth
- defnyddio amrywiaeth o dulliau i gyflwyno syniadau gan gynnwys TGCh, dulliau drama, cynnal trafodaeth a dadl
- cyflwyno, siarad a pherfformio gerbron amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys dysgwyr iau a hŷn, athrawon, cyfoedion, oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol
- ymdrin â gweithgareddau lle y mae geiriau, eu tarddiad, eu hystyr, y rheswm dros eu dewis, a'u heffaith, yn ganolog
- gwyllo a gwrando'n astud gan ymateb i amrywiaeth o symbyliadau ac ysgogiadau, e.e. *testunau ysgrifenedig a deinamig, perfformiadau theatrig a barddonol, siaradwyr gwadd, esboniadau, cyfarwyddiadau*
- cyfathrebu'n glir gan ynganu a goslefu'n briodol yn y Gymraeg, e.e. *llefaru, adrodd stori*
- defnyddio terminoleg sy'n addas i'r sefyllfa
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i drafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *gwaith awduron a chyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	cyflwyno syniadau a phynciau i gwrdd â gofynion gwahanol gynulleidfaoedd	cyflwyno syniadau a phynciau i gwrdd â gofynion gwahanol gynulleidfaoedd
		siarad yn rhugl, gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau	siarad yn rhugl ac yn hyderus, gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau
		defnyddio iaith ffurfiol yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau	addasu eu defnydd o iaith at ddibenion gwahanol o fewn ystod eang o gyd-destunau
		ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben	ymateb yn hyderus i adwaith y gwrandawyr gan addasu eu hiaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac at ddibenion gwahanol
		cyflwyno safbwynt gydag argyhoeddiad a chynnal y safbwynt hwnnw, gan ragweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, e.e. <i>mewn rôl neu drafodaeth</i>	siarad o amrywiaeth o safbwyntiau argyhoeddiadol i gwrdd â gofynion gwahanol sefyllfaoedd, cyd-destunau a dibenion
		archwilio materion heriol neu ddadleuol yn hyderus drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae	archwilio materion heriol neu ddadleuol yn hyderus ac yn gyson drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae
		strwythuro'u hiaith yn effeithiol gan ddefnyddio nodweddion di-eiriau i gwrdd ag amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol gan ddefnyddio patrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg ❖	addasu'u hiaith yn effeithiol gan ddefnyddio nodweddion di-eiriau i gwrdd ag ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol gan ddefnyddio patrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg ❖
		strwythuro ac ymestyn eu hiaith lafar yn hyderus; defnyddio ystod o batrymau cystrawennol, a geirfa sy'n fentrus ac yn fanwl gywir (gan gynnwys terminoleg) gan wneud cyfraniadau sylweddol ac ystyrion sy'n ennyn diddordeb y gwrandawyr ❖	strwythuro ac ymestyn eu hiaith lafar yn hyderus; defnyddio ystod o batrymau cystrawennol, a geirfa sy'n fentrus ac yn fanwl gywir (gan gynnwys terminoleg) a gwneud cyfraniadau sylweddol ac ystyrion sy'n ennyn diddordeb y gwrandawyr ❖
		meithrin cywirdeb ar lafar ac arddangos gafael dda iawn ar iaith, e.e. <i>ffurfiau berfau (amser a pherson), arddodiaid, cenedl enwau</i> ❖	meithrin cywirdeb ar lafar ac arddangos gafael dda iawn ar iaith, e.e. <i>ffurfiau berfau (amser a pherson), arddodiaid, cenedl enwau</i> ❖
defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun		



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Gwrando	ymateb i syniadau eraill mewn ffordd ystyriol, gan ofyn iddynt egluro eu hunain drwy ofyn cwestiynau priodol	ymateb yn hyderus ac yn sensitif i syniadau eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd gan ystyried yr wybodaeth a'r syniadau dan sylw a gofyn cwestiynau perthnasol
		gwrando ar bob math o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol	gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol
	Cydweithio a thrafod	addasu eu siarad mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd, cyd-destunau a dibenion mwy ffurfiol, e.e. <i>siarad â chynulleidfaedd mawr mewn trafodaeth ffurfiol</i>	addasu eu siarad mewn amrywiaeth o rolau gyda hyder cynyddol, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd, cyd-destunau a dibenion mwy heriol a ffurfiol, e.e. <i>rhoi cyflwyniad gerbron cynulleidfa allanol/anghyfarwydd</i>
		wrth ymateb i ystod eang o bynciau a thestunau ysgrifenedig heriol, datblygu a chefnogi eu syniadau eu hunain a syniadau eraill gyda thystiolaeth gan drafod ac ymateb yn synhwyrol ❖	wrth ymateb i ystod eang o bynciau a thestunau ysgrifenedig heriol, datblygu a chefnogi eu syniadau eu hunain a syniadau eraill drwy resymu, dadansoddi a cheisio eglurhad am ragdybiaethau eraill ❖
		defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws.	defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws.

Ymestyn

Mae dysgwyr yn gallu:

- gwneud amrywiaeth o gyfraniadau at drafodaethau mewn ystod eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- gwrando ar wybodaeth gymhleth gan roi ymatebion perthnasol, cymhellol a diddorol
- gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gan gyflwyno gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau cymhleth mewn ffordd ddarbwyllol
- cwrdd â gofynion amrywiaeth o rolau yn annibynnol a datblygu trafodaethau yn fedrus
- amrywio strwythurau brawddegau yn hyderus a dewis o eirfa eang i fynegi gwybodaeth a theimladau mewn ffordd ddiddorol a chreadigol.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddarllen ystod eang o destunau di-dor a phytiog, mewn fformat print neu mewn ffurf ddeinamig fel sail i'w hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai'r rhain gynnwys:
 - testunau cyflawn a detholiadau
 - testunau gwybodaeth a chyfeiriol
 - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
 - nofelau graffig
 - drama, gan gynnwys perfformiadau drama
 - testunau sy'n ymwneud â phynciau heriol sy'n ehangu'r gorwelion, sy'n datblygu'r gallu i ymresymu
 - testunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau, ffurfiau, pwrpasau, sy'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd a dyfeisiau cyflwyno gwahanol
 - testunau sy'n gyfoethog o ran safon ac amrywiaeth ieithyddol
 - testunau sy'n adlewyrchu dewis darllen personol dysgwyr
 - testunau ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
 - testunau sy'n ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol dysgwyr
 - testunau sy'n amrywio o ran tôn, e.e. *testunau sy'n cynnwys parodi neu eironi, testunau sy'n chwarae ar eiriau, testunau coeglyd/ensyniad*
 - testunau sy'n cynnig her
 - testunau sy'n dangos effaith technoleg ar yr iaith
- deall sut mae testunau'n esblygu wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol a thechnolegol
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, e.e. *darllen mewn paru, darllen mewn grŵp dan arweiniad, darllen ar y cyd*
- darllen at ddibenion gwahanol, e.e. *er mwynhad personol, i adalw gwybodaeth, i grynhoi a chyfosod gwybodaeth allweddol, i ddehongli a chyfuno gwybodaeth, i ddilysu gwybodaeth, i gyfoethogi dealltwriaeth drwy ail-ddarllen, i adnabod dyfeisiau iaith a ddefnyddir gan yr awdur, i ddadansoddi pwrpas ac i dreiddio dan groen testun am ystyr*
- datblygu'r iaith a'r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, beirdd, eu cyfoedion*, mewn testunau ysgrifenedig a deinamig.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	defnyddio eu gwybodaeth am: <ul style="list-style-type: none"> – darddiad a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan	defnyddio eu gwybodaeth am: <ul style="list-style-type: none"> – darddiad a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
		defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i> , i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl, gan ddethol a gwneud sylwadau ar y syniadau a'r themâu allweddol	defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i> , i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl, gan ddethol a gwneud sylwadau aeddfed ar y syniadau a'r themâu allweddol
		gwerthuso nodweddion ystod eang o destunau heriol (di-dor a phytiog) o ran iaith, thema, strwythur a threfn/cyflwyniad ❖	gwerthuso nodweddion ystod eang o destunau heriol (di-dor a phytiog) yn hyderus o ran iaith, thema, strwythur a threfn/cyflwyniad ❖
		defnyddio'r rhyngrwyd gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy a phwysig ydynt	defnyddio'r rhyngrwyd gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy, pwysig a chywir ydynt
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	canolbwyntio ar ddarllen a dadansoddi ystod o destunau sy'n newydd iddynt, rhai sydd wedi'u hargraffu a thestunau aml-foddol gan weithio'n annibynnol	canolbwyntio ar ddarllen a dadansoddi ystod eang o destunau sy'n newydd iddynt, rhai sydd wedi'u hargraffu a thestunau aml-foddol gan weithio'n annibynnol
		dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol	dadansoddi ac ymateb i destunau a'u his-destunau yn hyderus gan ddeall a dehongli'r ystyr
		deall testunau'n gyflawn gan resymu a dadansoddi beth sydd dan wyneb testun a dod i gasgliad; dirnad sut y gall y cyd-destun ddylanwadu ar y darllenydd	deall testunau'n gyflawn gan resymu a dadansoddi beth sydd dan wyneb testun a dod i gasgliad; dirnad sut y gall y cyd-destun ddylanwadu ar y darllenydd
		cymharu a chyferbynnu themâu a phynciau ar draws ystod o destunau a gwneud cysylltiadau rhwng testunau	cymharu a chyferbynnu'n hyderus themâu a syniadau ar draws ystod eang o destunau, gan ystyried sut maent yn amrywio o ran eu diben a'u heffaith



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	ymchwilio ystod eang o ffynonellau'n annibynnol gan ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o bwnc anghyfarwydd	ymchwilio ystod eang o ffynonellau'n annibynnol gan ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o bwnc sy'n gynyddol gymhleth
		gwneud cymariaethau a chysylltiadau gofalus rhwng testunau di-dor a/neu bytiog, e.e. trwy ddadansoddi thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriadaeth, yr effaith a fwriadwyd ar y darlennydd ❖	gwneud cymariaethau a chysylltiadau manwl a chyson rhwng testunau di-dor a/neu bytiog, e.e. trwy ddadansoddi thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriadaeth, yr effaith a fwriadwyd ar y darlennydd ❖
	Ymateb a dadansoddi	cyfodod a dadansoddi mwy nag un ffynhonnell wybodaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o destunau a all gyfleu syniadau sy'n gwrthdaro	cyfodod a dadansoddi mwy nag un ffynhonnell wybodaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn a chytbwys o destunau a all gyfleu syniadau sy'n gwrthdaro
		deall a gwahaniaethu rhwng ffaith/tystiolaeth a gogwydd/dadl gan wneud sylwadau ar bwyntiau amlwg a'r hyn sydd ymhlyg	deall ac ystyried yn fanwl sut y gellir dehongli testunau'n wahanol gan wahaniaethu rhwng ffaith/tystiolaeth a gogwydd/dadl
		gwneud sylwadau ar ddehongliadau gwahanol o faterion a syniadau gan ddefnyddio'r testun i gefnogi eu barn	archwilio'n fanwl i ddehongliadau gwahanol o faterion a syniadau gan ddefnyddio'r testun i gefnogi eu barn
		ymateb yn feirniadol i ystod eang o destunau di-dor a phytiog a'u dehongli mewn modd creadigol a rhesymegol ❖	ymateb yn feirniadol i ystod eang o destunau di-dor a phytiog gan ddangos dychymyg a gwreiddioldeb wrth eu dehongli ❖
		ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith a'r drefn/cyflwyniad gan ddewis a dethol tystiolaeth o'r testun i gefnogi'r farn honno ❖	ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith a'r drefn/cyflwyniad gan ddewis a dethol tystiolaeth o'r testun i gefnogi a chyfiawnhau'r farn honno ❖
		gwerthuso sut y caiff testunau eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau gan ystyried yn ofalus y diben a'r effaith a gânt ar y darlennydd/cynulleidfa, e.e. stori fer Kate Roberts Te yn y Grug a'r ffilm Mynydd Grug ❖	gwerthuso'n hyderus sut y caiff testunau gwahanol eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau gan roi ystyriaeth ofalus a beirniadol i'w diben a'r effaith y bwriedir iddynt eu cael ar y darlennydd/cynulleidfa ❖
gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau.	gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau yn hyderus.		



Ymestyn

Mae dysgwyr yn gallu:

- dethol, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, syniadau, barn, diben, ystyr ymhlyg a/neu ragfarn o fewn amrywiaeth eang o destunau a math o destunau
- cyfleu trosolwg cadarn o destunau heriol wrth gasglu gwybodaeth, syniadau, dadleuon a barn at ddibenion gwahanol
- ymateb mewn ffordd gymhellol a beirniadol gan ddangos gwreiddioldeb wrth ddadansoddi a dehongli
- ymateb mewn ffordd sicr a chraff i syniadau a themâu allweddol gan ddefnyddio dulliau casglu a dadansoddi yn effeithiol
- crynhoi a chyfuno gwybodaeth a syniadau yn gryno o ffynonellau gwahanol
- **ymateb yn bersonol, yn feirniadol ac yn berswadiol i amrywiaeth o destunau di-dor a phytiog gan werthuso sut mae iaith, gramadeg, strwythur a chyflwyniad yn effeithio ar y darlennydd ❖**
- **adnabod a thrafod gogwydd awduron mewn testunau disgrifiadol, naratif, dadlau, esbonio, trafod, cyfarwyddiadol a pherswâd, gan ddewis dyfyniadau addas; gwneud cymariaethau a chroes gyfeirio i egluro pwrpas ac ystyr y testun. ❖**



Llinyn: Ysgrifennu

Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion gan gynnwys:
 - adrodd yn ôl
 - rhoi cyfarwyddiadau
 - cyflwyno gwybodaeth
 - esbonio
 - dadlau/perswadio
 - trafod/dadansoddi
 - gwerthuso
 - adrodd stori
 - disgrifio
 - dangos empathi
- ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth ac ystod o destunau di-dor a phytiog mewn amryw o ffurfiau, e.e. *llythyron, dyddiaduron, erthyglau, storiâu, adroddiadau, areithiau, dramâu a sgriptiau, taflenni gwybodaeth, hysbysebion, poster, tudalennau a thestun i'r we, holiaduron, adolygiadau, ymsonau*
- ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygol, e.e. *cyfoedion, dysgwyr iau, athrawon, aelodau teulu, cymeriadau hanesyddol a ffuglennol*
- ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, e.e. *odlau a ffurf*
- defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *storiâu, llyfrau lluniau, delweddau, cerddi, profiadau, ffilmiau, paentiadau, cerddoriaeth*
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, cyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon canlynol.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Ysgrifennu

		↔	Blwyddyn 10	↔	Blwyddyn 11
Elfennau	Agweddau		Mae dysgwyr yn gallu:		Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr		ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan ddangos ymwybyddiaeth glir o bwy yw'r darlennydd neu'r gynulleidfa a diben yr ysgrifennu		ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi, gan addasu'r arddull a'r ffurf yn hyderus ar gyfer y darlennydd neu'r gynulleidfa a diben yr ysgrifennu
			dangos rheolaeth, meistrolaeth a gwreiddioldeb wrth ysgrifennu mewn ffurfiau di-dor a phytiog, e.e. ffurfio cymeriadau argyhoeddiadol a datblygu plot gan roi sylw i gyflymder, siâp, manylion a dyfeisiau penodol eraill, er mwyn dal a chynnal diddordeb y darlennydd ❖		dangos rheolaeth, meistrolaeth a gwreiddioldeb wrth ysgrifennu ffurfiau di-dor a phytiog, e.e. ffurfio cymeriadau argyhoeddiadol a datblygu plot gan roi sylw i gyflymder, siâp, manylion a dyfeisiau penodol eraill, er mwyn hoelio diddordeb y darlennydd ❖
			llunio ymatebion sy'n cysylltu ac yn datblygu syniadau i roi sylw i bob elfen o'r pwnc		llunio ymatebion manwl yn hyderus, gan gysylltu a datblygu syniadau i roi sylw i bob elfen o'r pwnc
			cynllunio'n briodol i ddatblygu sut y maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd		cynllunio'n briodol i ddatblygu sut y maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth gynyddol heriol o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd
			defnyddio adnoddau a chonfensiynau TGCh mewn ffordd greadigol a phriodol er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau		defnyddio adnoddau a chonfensiynau TGCh mewn ffordd greadigol a phriodol er mwyn cyfathrebu ar draws ystod o gyd-destunau sy'n gynyddol amrywiol a heriol
			prawf ddarllen eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn annibynnol gan ei olygu'n ofalus a defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion i werthuso a gwella'r testun yn hyderus ❖		prawf ddarllen eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn annibynnol gan ei olygu'n ofalus a defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion i werthuso a gwella'r testun yn hyderus ac yn effeithiol ❖



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Strwythur a threfn	gwella cynnwys, strwythur a chywirdeb eu hysgrifennu drwy ei adolygu a'i olygu'n annibynnol	gwella cynnwys, strwythur a chywirdeb eu hysgrifennu drwy ei adolygu a'i olygu'n annibynnol
		ysgrifennu'n annibynnol ar ffurf briodol gyda hyder cynyddol, gan sicrhau bod y cynnwys yn drefnus, yn fanwl ac yn berthnasol, e.e. <i>cyflwyno safbwyntiau, gwybodaeth ac esboniadau yn y ffordd orau</i>	ysgrifennu'n annibynnol ar ffurf briodol yn hyderus, gan sicrhau bod y cynnwys yn drefnus, yn fanwl ac yn berthnasol, e.e. <i>i esbonio proses, cyfleu dadl</i>
		dangos ymwybyddiaeth glir o wahanol ddarllenwyr drwy ddewis amrywiaeth o arddulliau a strwythurau ac addasu eu defnydd o iaith	dangos ymwybyddiaeth gyson o wahanol ddarllenwyr drwy ddewis amrywiaeth o arddulliau a strwythurau ac addasu eu defnydd o iaith yn hyderus
		trefnu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu ar ffurf briodol, gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl oddi mewn a rhwng paragraffau neu adrannau	trefnu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu ar ffurf briodol, gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl oddi mewn a rhwng paragraffau neu adrannau, a chan ddatblygu a chynnal syniadau mewn ffordd ystyrlon
Ysgrifennu'n gywir	Iaith	defnyddio iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd a chydabod y gallai fod mwy nag un safbwynt, e.e. <i>defnyddio geiriau fel 'gellid dadlau', 'gellid gweld bod ...'</i>	bod yn wrthrychol ac yn ddiuedd am bynciau cymhleth, gan ddefnyddio ystod o ddyfeisiau ieithyddol
		defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol, geirfa briodol a mynegiant at ddibenion gwahanol gan greu effeithiau gwahanol, e.e. <i>perswadio, rhoi gwybodaeth, diddanu</i>	defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol yn gywir a defnyddio geirfa a'r mynegiant priodol i adlewyrchu gofynion y dasg ac i greu effeithiau gwahanol, e.e. <i>crynoi dadl</i>
		defnyddio geirfa uchelgeisiol yn briodol ac yn gywir i gyfleu ystyr a chreu effeithiau bwriadol ❖	defnyddio geirfa uchelgeisiol yn hyderus ac yn gywir i gyfleu ystyr a chreu effeithiau bwriadol ❖
	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	dangos gafael gadarn ar iaith a chystrawen y Gymraeg a saernïo'u hiaith yn ofalus wrth ysgrifennu, e.e. <i>defnyddio ystod o ffurfiau berfol i bwrpas, negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau'n gywir ❖</i>	dangos gafael gadarn ar iaith a chystrawen y Gymraeg gan saernïo'u hiaith yn hyderus wrth ysgrifennu, e.e. <i>defnyddio ystod o ffurfiau berfol i bwrpas, negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau'n gywir ❖</i>
		amrywio strwythurau brawddegau er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd ac ysgrifennu'n ramadegol gywir	amrywio strwythurau brawddegau er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd ac ysgrifennu'n ramadegol gywir



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ysgrifennu'n gywir	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	defnyddio ystod gyflawn o atalnodi er mwyn cyflymu ac arafu'r dweud, sicrhau bod yr ystyr yn glir, osgoi amwysedd a chreu effaith bwrpasol	defnyddio ystod gyflawn o atalnodi er mwyn cyflymu ac arafu'r dweud, sicrhau bod yr ystyr yn glir, osgoi amwysedd a chreu effaith bwrpasol
		defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau amrywiol i sillafu ystod gynyddol o eiriau cyfarwydd, geiriau anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir	defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau amrywiol i sillafu ystod gynyddol o eiriau cyfarwydd, geiriau anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir
		cyflwyno'u gwaith yn effeithiol, yn ysgrifenedig neu ar sgrin, gan ddewis ffurf, delweddau a graffigau i helpu i gyfleu'r ystyr	cyflwyno'u gwaith yn effeithiol, yn ysgrifenedig neu ar sgrin, gan ddewis ffurf, delweddau a graffigau i helpu i gyfleu'r ystyr
		ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun	ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun
		defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun.	defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun.

Ymestyn

Mae dysgwyr yn gallu:

- ysgrifennu gan ddangos rheolaeth hyderus a sicr ar amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau sy'n briodol i'r dasg a'r diben
- ysgrifennu i ennyn diddordeb y darlennydd ac yn gallu ei gynnal drwy ddadl resymegol, grym perswadiol neu wreiddioldeb ysbrydoledig
- defnyddio nodweddion ieithyddol a strwythurol mewn ffordd fedrus i roi testunau mewn trefn a chyflawni cydlyniaeth
- ysgrifennu dogfennau ar bynciau cymhleth, yn gryno ac yn glir, yn rhesymegol ac yn ddarbwyllol, gan gynnwys darnau ysgrifennu estynedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn yn effeithiol ac yn ddarbwyllol
- defnyddio amrywiaeth eang o strwythurau brawddegau cywir gan sicrhau eglurder
- defnyddio geirfa ddatblygedig yn briodol a chyda chywirdeb
- defnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir
- **defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion yn hyderus.** ❖